# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 457 | Ionawr 2025 | Pris £1.50


## CYNGERDD YR ADFENT



Côr AR ÔL TRI, y tenor Aled Wyn Davies a'r cyfeilydd Meinir Jones-Parry

Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar Nos Sul cynta'r Adfent ar gyfer Cyngerdd Blynyddol Menter Iaith Sir Benfro ar y cyd â Chelfyddydau SPAN. Mae'r cyngerdd yn rhoi cyfle i ddenu cynulleidfa o bell ac agos a chyflwyno'r diwylliant a'r iaith Gymraeg i rai am y tro cyntaf o bosib.

Wrth i'r gynulleidfa gyrraedd bu Côr Pawb, sef côr cymunedol Celfyddydau SPAN yn canu gan roi pawb yn yr ysbryd cyn i'r gyngerdd ddechrau!

Gwahoddwyd Côr Ar Ôl Tri i berfformio a hynny o dan arweiniad Emyr Davies gyda Meinir Jones Parry yn cyfeilio. Crëwyd naws hyfryd yn syth o'r cychwyn gyda pherfformiad o eiriau W Rhys Nicholas 'A welaist ti'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr' ar y dôn 'Troyte' ac yna cafwyd rhaglen amrywiol o ddarnau addas at gyfnod yr Adfent a'r Nadolig yn cynnwys datganiad arbennig o 'Jingle Bells' hyd yn oed! Llywiwyd y noson gan Y Prifardd Ceri Wyn Jones gan ychwanegu'n fawr wrth wneud hynny yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Yn anffodus, oherwydd ymrwymiad arall, method yr unawdydd gwadd, Trystan Llŷr Griffiths fod yn bresennol ond cafwyd tenor o fri arall sef Aled Wyn Davies o Lanbrynmair a hyfryd oedd cael ei groesawu atom. Cafwyd amrywiaeth o ddatganiadau clasurol yn cynnwys unawdau gan gyfansoddwyr Cymraeg a hefyd medli o garolau Plygain. Meinir Jones Parry fu'n cyfeilio i Aled hefyd.

I ddod â'r gyngerdd i ben ymunodd Aled Wyn Davies â'r Côr ac yna gwahoddwyd y gynulleidfa i ganu 'O deuwch ffyddloniaid'.

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi eleni eto, yn arbennig i Myfanwy Lewis ac Anna Williams am helpu gyda'r trefniadau gyda'r manylder arferol ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant Cyngerdd yr Adfent 2024. Edrychwn ymlaen at gael cwmni Trystan Llŷr ac artistiaid eraill ar y 30ain o Dachwedd wrth i ni gychwyn tymor yr Adfent unwaith eto - efallai ei fod yn teimlo'n bell nawr ond fe ddaw yn fuan!

## Enillydd £500 Raffl Fawr Y Cardi



Llongyfarchiadau i Mrs Merle Evans, Delfryn, Llanboidy ar ennill y wobr gyntaf yn raffl flynyddol Y Cardi Bach

Caffi Beca, Efailwen

**NOSON GWIS Y CARDI BACH**

yng ngofal Iola Wyn

**Nos Wener, Chwefror 7fed, 2025 am 7.30 y.h.**

Tîmau o 4

**3 Gwobr £100/£50/£25**

**Raffl**

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |


Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **10fed** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

A dyma ni ar ddechrau blwyddyn arall a ninnau wedi croesawu 2025 - chwarter canrif ers dathliadau'r mileniwm newydd.

Wedi cyfnod mwyn ar ddiwedd 2024, mae dechrau Ionawr wedi bod i'r gwrthwyneb ac yn ddigon rhewllyd. Rydw i wedi treulio sawl munud yn crafu rhew oddi ar ffenestri'r car yn yr oriau mân, cyn cychwyn am Gaerfyrddin, ac yna wedi gorfod mynd ati eto am 11 y bore ar ddiwedd shifft, am fod y ffenestri wedi ail rewi.

Ac ar y pegwn arall, mae gwres eithriadol yn sgil tanau gwyllt wedi lladd pobl, a dinistrio miloedd o gartrefi yn Los Angeles. Ar un adeg, roedd y ddinas yn wenfflam.

Bob blwyddyn, ry'n ni'n clywed am drychinebau yn sgil grym natur, boed hynny'n ddaeargrynfeydd, neu lifogydd. A gan amlaf, mae'r trychinebau hynny yn effeithio ar y difreintiedig yn rhai o wledydd tlota'r byd. Ond y gwrthwyneb sy'n wir yn achos Los Angeles gyda chartrefi crand ser Hollywood ymhlith y rhai sydd wedi eu dinistrio'n llwyr.

Ac mae'n dod yn fwy fwy amlwg bod trychinebau naturiol o'r fath yn medru digwydd unrhywle yn y byd bellach ac nad yw cyfoeth o reidrwydd yn medru eu hatal.

Ac yma yn Sanclêr, roedd y cennin pedr wedi blodeuo yn yr ardd gyferbyn â'n cartref eleni cyn i ni hyd yn oed roi ein haddurniadau Nadolig yn ôl yn eu bocsys. Mae'n arwydd unwaith eto eleni fod yr hinsawdd yn newid, ac nad oes patrymau pendant bellach i'n tymhorau.
Mae mis Ionawr yn medru bod yn fis hir a thywyll, ond cofier bod y dyddiau'n ymestyn yn ara' bach, neu gam ceiliog.

Gobeithio y bydd 2025 yn flwyddyn garedig i ni i gyd – mae'n flwyddyn dau ben-blwydd 90 oed yn ein teulu ni a dathliad priodas arian. Cyfle i ddathlu a chyfri'n bendithion felly.

Gan obeithio y bydd cyfleoedd ar bob aelwyd i gofnodi dathliadau arbennig eleni. Pob dymuniad da i bawb yn 2025!

## BLWYDDYN NEWYDD DDA !



Dyma Alaw Evans (wyres Wyn a Meirwen) a fu o amgylch pentref Llangyndeyrn yn canu calennig ar fore dydd Calan. Daeth adref yn hapus â llond poced o arian !!



**Calennig**

**Blwyddyn Newydd Dda i chi**
**Ac i bawb sydd yn y tŷ**
**Dyma fy nymuniad i**
**Blwyddyn Newydd Dda i chi**

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.comY |
| (Newyddion Tabernacl) | Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parch. Emyr Williams*

Yw hi rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda, neu yw hi rhy hwyr i wneud addewidion blwyddyn newydd?

2024 wedi mynd yn hanes erbyn hyn ac i ni yn edrych nol gyda balchder, hiraeth, a diolch am yr hyn sydd wedi bod. Fel ceiliog y gwynt yn troi o edrych yn ôl i edrych am ymlaen am flwyddyn arall. A'r gwirionedd syml yw na wyddom beth a ddaw. Ond ar yr un pryd gallwn fod yn sicr y bydd llaw Duw yn ein harwain ddydd am ddydd.
Wrth i ni feddwl am Saul yn cael tröedigaeth ar y ffordd i Damascus. Os byddai rhywun wedi sôn wrtho oriau ynghynt am yr hyn oedd yn mynd i ddigwydd, byddai siŵr o fod wedi cael pwl o chwerthin.
Yn ddiweddarach yn ei yrfa, petai rhywun wedi sôn wrtho y byddai yn wynebu llongddrylliadau, a fyddai wedi mynd ymlaen? Wrth gwrs byddai.

Petai rhywun wedi sôn wrth Sacheus y byddai y boi Iesu ma wedi dod i swper, ac wedi newid ei fywyd am byth, falle nad dringad i'r sycamorwydden fyddai, ond wedi glanhau y tŷ a paratoi swper ysblennydd fyddai.

Ma blwyddyn newydd fel dalen newydd mewn llyfr newydd, heb ddim arno i'w harddi neu ei ddifwyno. Hollol glir i ni ei lenwi gyda pob math o bethau. Cerrig milltir i edrych ymlaen atynt ar hyd y flwyddyn. Penblwyddi, gwyliau, digwyddiadau. Y cyfan yn y gobaith o gael blwyddyn lewyrchus arall.

I ni siŵr o fod wedi penderfynu newid ambell i beth. Gwneud pethau newydd, peidio gwneud ambell i beth, ymarfer corff, neu ddiet. Ond y gwirionedd mawr yw taw dynol i ni, ac yn siŵr o wyro o un peth i'r llall, a cyrraedd nol i'r un man a wnaethom ni ddechrau!
Fel unigolion, cymunedau ac eglwysi, y peth pwysig yw cadw ein ffydd, byw mewn gobaith a caru pawb hyd eithaf ein gallu.

Addo wnaf i ti, fy Nuw,
rodio'n ufudd tra bwyf byw,
meithrin ysbryd diolchgar, mwyn,
meddwl pur heb ddig na chŵyn.

Addo wnaf i ti, fy Nuw,
wneud fy ngorau tra bwyf byw,
cymwynasgar ar fy nhaith,
nod gwasanaeth ar fy ngwaith.

Addo wnaf i ti, fy Nuw
dystio'n ffyddlon tra bwyf byw,
sefyll dros y gwir a'r glân,
grym dy gariad imi'n gân.

Addo, ond ni allaf ddim
heb dy gymorth dwyfol im,
dilyn Crist yn d'Eglwys wnaf,
bywyd llawn yn wir a gaf.

*Tudor Davies*

Byddwn yn ffyddlon yn 2025 a cerddwn gyda Crist ar hyd y flwyddyn.

Pob Bendith, a Blwyddyn Newydd Dda i chi.



**Enillydd Cystadleuaeth hamper tudalen Face Book Y Cardi Bach**

Wendy Day o Alltwalis gyda'r hamper - llongyfarchiadau iddi.

# Clonc a Phosau John Arfon

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael Nadolig wrth eich bodd gyda llawer o bresantau a llond bol o fwyta ac yfed, ond heb fod yn ormodol. Er hynny, rhaid cofio am y rhai llai ffortunus sydd wedi bod heb fwyd na llety dros y Nadolig, Anfonwn hefyd ein cydymdeimlad dwysaf i rai ohonoch sydd wedi colli anwyliaid ac wedi syllu ar y gadair wag o flaen y bwrdd gloddesta dros yr ŵyl.

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch, gan obeithio yn fawr y bydd y Flwyddyn hon yn un gwell na'r ddiwethaf. Ein gobaith pennaf yw am heddwch eleni, gyda diwedd i'r holl ryfela a lladd yn y gwahanol wledydd. Gobeitho y cawn dywydd llawer iawn gwell gyda llai o stormydd a thywydd garw gyda'r holl lifogydd a difrod maent yn eu achosi. Yn fwy na dim, dymunaf y caiff pob un ohonoch iechyd a phob bendith drwy'r flwyddyn.

Yn anffodus anghofiais y mis diwethaf roddi dyddiad cau er mwyn ichwi gael y siawns o ennill y gwobryon ariannol oedd ar gael trwy ateb y posau.
Oherwydd hyn, rwyf hefyd yn cynnig gwobrau am ddatrys cystadleuaeth y mis hwn hefyd. Anfonwch eich atebion i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hendygwyn ar Daf. SA34 0AX erbyn Chwefror 20fed. Bydd atebion i bosau y Nadolig a Ionawr yn ymddangos yn rhifyn Mawrth.

**Dyma atebion y Cwrosw a Chwilrif Rhifyn y Nadolig**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | O | X | O |
| O | X | X | O | X | O |
| X | X | O | X | O | O |
| O | O | X | O | X | X |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 4 | 9 | 8 | 5 | 2 | 7 | 3 | 1 |
| 7 | **2** | 5 | 1 | 9 | 6 | 5 | 4 | 8 |
| 5 | **1** | 8 | 3 | 4 | 7 | 9 | 2 | 6 |
| 3 | 7 | 1 | 2 | 6 | 9 | 8 | 5 | 4 |
| 2 | 6 | 4 | 5 | 8 | 1 | 3 | 9 | 7 |
| 8 | 9 | 5 | 4 | 7 | 3 | 6 | 1 | 2 |
| 9 | 5 | 6 | 7 | 2 | 4 | 1 | 8 | 3 |
| 4 | 3 | 7 | 9 | 1 | 8 | 2 | 6 | 5 |
| 1 | 8 | 2 | 6 | 3 | 5 | 4 | 7 | 9 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori y mis hwn**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | | | | O | |
| | | X | | | O |
| | | | X | | O |
| | | X | | X | |
| X | | | | | |
| | O | | | O | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | | | | | 2 | | | |
| 3 | | 1 | | 5 | | | | |
| 4 | | | | | 1 | | 6 | 2 |
| 1 | 5 | | | | 8 | | | 3 |
| | 7 | 8 | 4 | | | | | |
| | | | 7 | | | 9 | | |
| | | 2 | 8 | 7 | | | | |
| | 3 | | | | | 7 | | |
| | | | | 9 | | 1 | | |

**Pôs y mis hwn yw datrys y Chwilair canynol sy'n rhoddi enwau rhai o gyfansoddwyr y byd. Wedi canfod a chroesi allan y rhai a enwir, dylech gael enwau dau gyfansoddwr o Gymru trwy ddarllen y llythrennau heb eu croesi allan mewn trefn o'r top i'r gwaelod. Fel y soniais yn ynghynt byddaf yn cynnig gwobr o lyfr Cymraeg i'r ddau gyntaf cywir allan o'r het. Gallwch yrru atebion i bosau Rhagfyr a Ionawr mewn un amlen.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | A | C | H | M | A | N | I | N | O | V | E | R | D | I | B | T |
| B | R | A | H | M | S | C | H | U | B | E | R | T | M | R | A | C |
| A | L | A | B | O | R | O | D | I | N | R | E | L | L | O | C | H |
| R | I | E | H | M | P | R | O | K | O | F | I | E | V | S | H | A |
| T | S | B | E | R | L | I | O | Z | R | U | K | H | W | S | D | I |
| O | Z | S | A | T | I | E | N | T | I | D | L | A | V | I | V | C |
| K | T | K | A | V | O | N | G | E | R | O | G | R | Z | N | O | H |
| Y | S | S | U | B | E | D | H | R | H | N | I | P | N | I | R | O |
| K | U | A | B | R | U | C | H | O | E | S | O | T | A | S | A | V |
| S | I | B | E | L | I | U | S | R | S | B | S | T | S | R | K | S |
| N | L | R | L | B | O | R | G | E | S | S | N | U | L | L | R | K |
| I | E | I | L | L | U | B | L | R | A | G | L | E | A | A | O | Y |
| V | D | T | I | A | R | E | L | L | I | M | E | E | O | R | W | H |
| A | L | T | N | N | D | Y | A | H | R | E | H | G | D | H | T | W |
| R | I | E | I | N | R | E | K | C | U | L | G | C | A | N | C | S |
| T | H | N | A | V | I | L | L | U | S | O | U | S | I | C | E | S |
| S | C | H | U | M | A | N | N | Y | S | N | T | R | A | Z | O | M |

**Dyma restr o'r cyfansoddwyr :**

1. Bach
2. Bartok
3. Bellini
4. Berlioz
5. Borges
6. Borodin
7. Brahms
8. Britten
9. Bruch
10. Bull
11. Cage
12. Child
13. Chopin
14. Debusy
15. Delius
16. Dvorak
17. Elgar
18. Gero
19. Gluck
20. Grieg
21. Handel
22. Haydn
23. Holst
24. Kern
25. Kurz
26. Lehar
27. Liszt
28. Mendelssohn
29. Miller
30. Mozart
31. Novak
32. Oller
33. Parry
34. Prokofiev
35. Rachmaninov
36. Riehm
37. Rossini
38. Sanz
39. Satie
40. Schoenberg
41. Schubert
42. Schumann
43. Sibelius
44. Sousa
45. Strauss
46. Stravinsky
47. Suk
48. Sullivan
49. Tchaichovcsky
50. Verdi
51. Vivaldi
52. Wagner
53. Walton
54. Zich

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Blwyddyn Newydd Dda i chi a dymunaf iechyd ac hapusrwydd i chi gyd.

Mae'n flwyddyn newydd i'r Clwb 200 hefyd a diolch i'r nifer ohonoch sydd eisoes wedi ymaelodi. Fe welwch chi fod yna ffurflen ymaelodi'n amgaeedig yn y rhifyn hwn, ar gyfer ei chwblhau a'i danfon ataf i. Bydd pawb sy'n ymaelodi'n cael cyfle i ennill yn fisol, gyda'r wobr gyntaf yn £30 a'r ail yn £20. Roedd gennym 675 o aelodau y llynedd ac edrychaf ymlaen at flwyddyn lewyrchus eleni eto.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn lwcus ym mis Rhagfyr:-
£30 - 510 - Hefina Jones, Meidrim.
£20 - 90 - R. M. Jones, Cyfrifydd, Clunderwen.

Cynhaliwyd y Raffl Fawr am 2024 ar Ragfyr 1af yng Nghanolfan Hywel Dda, Hen Dŷ Gwyn.

Ceir yma restr o'r enillwyr lwcus ac os ydy'ch enw chi i'w weld, ond eich bod heb dderbyn eich arian, cysylltwch â fi ar unwaith, os gwelwch yn dda.

**£500**
Merle Evans, Delfryn, Llanboidy

**£300**
Delyth a John Evans, Crud y Wawr, Pwll-Trap

**£200**
Janet Jones, Yr Hafan, Heol Bronwydd, Caerfyrddin

**£100**
Dai Baker, Llys Myfyr, Cynwyl Elfed
Alexia Jones, D/O Wilma Robins, Rhyd-y-Gors, San Clêr
Celt a Shân Nicholas, Celan, Pwll-Trap

**£75**
Taliesin Scott Robinson, Caeredin
Eifion Daniels, Hafan, Blaenffos
Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Mali a Nel Kay, Penylan, Caerdydd

**£50**
Delyth a Kevin Morris, Bryntaf, Llanfallteg
Sally Evans, Meirion, Y Glôg, Llanfyrnach
Eifion Nicholas, Millfields Close, Pentlepoir
Meinir Thomas, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn
Owen Phillips, Saer Coed, Llanddewi Efelffre
Clwb Cymdeithasol Llanboidy
Meleri a Buddug, Blaenffynnon, Cwmfelin Mynach
Ray ac Archie Lewis, Lôn Ddewi, Meidrim

**£40**
Sian Elin Jones, Llantriddyd, Y Bontfaen
Dianne Thomas, Rhiwderin, Casnewydd
Noeleen Davies, Parc y Rhos, Cwmann
Huw Thomas, Peiriannydd Amaethyddol, Hen Dŷ Gwyn
Llawn Cariad, Heol y Pentref, San Clêr
Gwesty Station House, Stryd Sant Ioan, Hen Dŷ Gwyn
Ambrose Lewis, Neuadd, Meidrim
Heulwen Davies, Heol y Gaer, Clunderwen
Glyn a Tania Evans, Gwaelod y Garth, Caerdydd
Carys Jones, Cware, Llwynbrain, Hen Dŷ Gwyn

**£30**
David Rowlands, Lôn Hywel, Hen Dŷ Gwyn
Tomos ac Etta Phillips, Mynydd Bychan, Caerdydd
Betty Davies, Rhoswyn, Efailwen
Daniel Undabarrena Jones, D/O Wilma Robins, Rhyd-y-Gors, San Clêr
Cynwyl Davies, Meisgyn, Pontyclun
Bleddyn Davies, Blaenffynnon, Henllan Amgoed
Haulwen Lewis, Cefn y Pant, Hen Dŷ Gwyn
George ac Ann Glanville, Llwynpinner Fach, Hen Dŷ Gwyn
Siôn Thomas, Clôs Griffith Jones, San Clêr
Elizabeth White, Gerddi Trefychan, Hen Dŷ Gwyn

**£25**
Dylan a Maureen John, Hendre Fawr, Llandysilio
Rhys Tomos Bowen, D/O Wilma Robins, Rhyd-y-Gors, San Clêr
Gillian Gibby, Cysgod y Dderwen, Llandysilio
Eiryth Holdcroft, Ger-y-Gors, Pwll-Trap
Geraint Phillips, Myddfai, Pwll-Trap
Don a Sheila Howells, Cae Glas, San Clêr
Wyn Howells, Peintiwr, Dandre, Llanboidy
Annalyn Davies, Murmur Cowin, Bancyfelin

£20
Ann Lewis, Heol yr Orsaf, Arberth
Rhian Pugh, Ffynnonlas Uchaf, Blaenwaun
Buddug Phillips, Merlais, Llanboidy
Patsy Lewis, Talarwen, Meidrim
Jean Griffiths, Springhill, Llandysilio

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Clwb 200 ac i'r Cardi Bach. *Rhian*

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Dim ond dau lyfr llwyddais i'w darllen dros y gwyliau – hunangofiant a nofel ddirgelwch. Dathlodd Endaf Emlyn ei ben-blwydd yn 80 y llynedd, ac anodd credu bod record Salem wedi dathlu'r 50. I ble'r aeth y blynyddoedd dwedwch? Bu'n amharod i lunio hunangofiant cyn hyn am nad oedd yn hoff o dynnu sylw ato 'i hun ond fe'i ysgogwyd i ' godi'r caead fymryn' ar ôl derbyn llawdriniaeth am gancr – triniaeth a fu'n llwyddiannus. Mae'n holi sawl cwestiwn yn ei ragymadrodd i **Salem a Fi** megis beth oedd apêl byd 'llychlyd y capel' iddo. Cafodd ei fagu ym Mhwllheli yng nghyfnod 'rhigol o ddyletswydd a rheol' Calfiniaeth ac fel merch i weinidog Methodist medrwn uniaethu â'i brofiad o'r 'athrawiaeth trwm' a brofodd yng nghapel Penmount. Cawn ein hatgoffa o gwestiynau'r Rhodd Mam, o'r Suliau di-sŵn a pham na fedrem gicio pêl. Er hynny, mae'n dal i ddarllen y Beibl bach a gafodd am basio'r Arholiad Sirol – nid yn ddefosiynol meddai ond gyda mwynhad o 'iaith hardd' y capel.

Gwelodd ddarlun Curnow Vosper gyntaf yng nghartref ei fodryb yn Llanfairfechan, un a fu'n howsgipar i ŵr gweddw cyn 'symud o ystafell y forwyn i'r gwely priodasol.' Llwydda i ddarlunio'r cartref hwnnw'n rhyfeddol o fyw. Mae'n galw i gof fyd y gorffennol – byd heb deledu, chwyldro'r chwedegau a Radio Luxembourg. Mae golygfeydd o'i orffennol i'w gweld yn nifer o'i ffilmiau megis *Un Nos Ola Leuad, Stormydd Awst* a *Gadael Lenin* a'i yrfa yn y cyfryngau yn rhychwantu ail hanner y ganrif ddiwethaf. Rhanna ei brofiad o iselder a alwai yn Glyn Cysgod Angau, o golli ei fam a'i berthynas gymhleth â'i dad. Mae'r arddull yn gywrain, y penodau'n fyr, ceir ambell linell o gân ar ddechrau ambell un ac mae'n ail ymweld â llun Salem bob hyn a hyn. Wrth gloi dywed y 'daeth Salem i gynrychioli rhyw hiraeth parchedig am ein gorffennol capelaidd'. Wrth lunio'r hunangofiant hwn sylweddololodd gymaint rhan o'i fywyd oedd y capel, ac 'er iddo ddewis ffordd arall i'w cherdded,' mae'n gobeithio y 'gellir cadw'r drws yn agored.' Mae rhai ohonom yn ceisio gwneud hynny!

Does dim rhyfedd iddo dyfu'n ganwr a chyfansoddwr dan ddylanwad sol-ffa'r Bandohôp, aelwyd yr Urdd a ddechreuwyd gan ei fam, y nosweithiau llawen a gynhaliwyd ganddynt fel teulu, cymryd rhan ym mhasiant Cynan yn Eisteddfod Pwllheli yn 1955. Roedd ei dad am iddo fynd i ysgol eglwys gadeiriol St Paul Llundain ond gwrthododd yr Endaf ifanc. Roedd yn canu'r ffidil, yn aelod o gerddorfa ieuenctid Cymru yn cyfoesi â John Cale a Karl Jenkins. Cyn priodi bu ei dad yn drombonydd mewn band a gafodd dransffer o Dal-y-sarn i fand Morris Motors Rhydychen nes i'r Ail Ryfel Byd darfu ar hynny. Mae'n berl o hunangofiant.

Yn ystod fy arddegau a'm hugeiniau rwy'n credu i mi ddarllen bob un o nofelau Agatha Christie. Roedd y nofel, **Dim Ond Un** gan Meleri Wyn James yn fy atgoffa o'r storïau hynny pan fo grŵp o bobl wedi'u dal ar ynys neu westy am rai dyddiau a darganfod corff ac sy'n debyg i nofelau llwyddiannus mwy diweddar Lucy Foley. Ynys Enlli yw'r lleoliad. Mae Carys a Nav yn bwriadu symud yno am flwyddyn ac yn annisgwyl mae rhai o'i theulu wedi teithio yno i'w croesawu. Mae'r tywydd yn troi a does dim modd iddynt adael a'r stori yn digwydd dros chwe niwrnod. Digwyddodd hynny i gyfnither a fydd yn mynd ar bererindod wythnos i Enlli bob blwyddyn a chafodd ei hynysu yno am rai dyddiau'n ychwanegol. Gallai hynny felly fod yn ddigon credadwy. Heuir amheuon am bob cymeriad bron yn eu tro ac fe'u darlunnir yn effeithiol. Llwyddir i greu cynnwrf a thensiwn, a'r arddull yn fyrlymus. Cyn hyn cafodd Carys ddamwain wrth farchogaeth a hynny wedi peri iddi golli ei chof a'r hanes yn Enlli yn gysylltiedig â'r hyn ddigwyddodd iddi. Er i mi ei darllen yn awchus er mwyn cyrraedd datrysiad ni chefais fy modloni gyda'r diweddglo. Bydd yn ddiddorol clywed barn eraill yn y clwb darllen Cymraeg a drefnir gan Beti-Wyn sy'n cwrdd yn fisol ym Mhwll Trap. Mae rhai yn teithio o ardal Caerfyrddin – dewch i ymuno â ni am drafodaeth ddifyr a phaned.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Cynhaliwyd Oedfa o Fawl Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda yng nghapel Nebo ar brynhawn Sul, Tachwedd 24ain. Llywyddwyd yr oedfa gan y Parch. Guto Llywelyn. Cyflwynwyd siec o £1,300 yr un i Daf Wyn (a oedd yn cynrychioli Sglerosis Ymledol (MS) Claire Thomas (Clefyd Parkinson) a Gwenda Mathias (Meddygfa Taf, Hendy-gwyn). Roedd hyn o ganlyniad i'r arian godwyd ar y daith gerdded flynyddol nôl ym mis Medi. Uchafbwynt yr oedfa oedd cyfraniad ardderchog gan blant Ysgol Sul Nebo, Efailwen dan ofal Janice Morgan. Arweiniwyd y canu yn fedrus iawn gan Ceirios Jenner a Heather Jenkins. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.



Swyddogion y gymdeithas, plant Ysgol Sul Nebo, cynrychiolwyr yr elusennau, Ceirios Jenner a Heather Jenkins.

## Cyfraniadau'r Eglwysi 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bethel Llanddewi | £100 | Moriah | £200 |
| Bethel Mynachlogddu | £200 | Nasareth Hendygwyn | £150 |
| Blaenconin | £200 | Nebo | £340 |
| Calfaria Login | £300 | Pisgah | £175 |
| Cefnypant | £130 | Ramoth Cwmfelin | £453 |
| Cwm miles | £200 | Rhydyceisiaid | £60 |
| Glandwr | £100 | Rhydwilym | £125 |
| Henllan Amgoed | £440 | Tabernacl Hendygwyn | £200 |
| Llwynyrhwrdd | £210 | Trinity Llanboidy | £151 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm | £3,734 |

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




DAVIES
Builders Merchants
Cyflenwyr ADEILADU a D.I.Y
Arddangosfa ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar agor



Ffon
Hendygwyn: 01994 240 228
San Cler: 01994 230 239
www.daviesbm.co.uk




HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Beca

Prynhawn Iau, Tachwedd 14eg gwnaeth Eilir Davies groesawu pawb i'r cyfarfod misol cyn trafod materion y gangen.
Gwnaeth Hilary Davies groesawu Delyth Robinson atom i'r cyfarfod i roi ei hanes adre ar y fferm yn Llanwinio a sut aeth ati i greu sebon allan o laeth. Cawsom brynhawn diddorol iawn.

Mae'r gwartheg yn dod i fewn i gael ei godro gyda 'robots' dair gwaith y dydd. Ond nid oes lori yn mynd a'r llaeth o'r fferm. Delyth sydd yn cymeryd y llaeth ac yn ei gymysgu gyda olew olewydd ac ati i wneud sebon. Ffordd hollol wahanol i ddefnyddio llaeth. Yr oedd rhai o'r aelodau yn cofio godro gyda dwylo ddwywaith y dydd. Dim son am beiriant godro, na robots yr amser hynny.

Diolchodd Eilir i Delyth am hanes diddorol dros ben, a dymuno pob hwyl iddi yn y fenter. Rhiannon Davies wnaeth ennill y raffl misol.

Wedyn cael cyfle i edrych a prynu y gwahanol sebonau wrth fwynhau cacen, paned a chlonc.

Cynhaliwyd ein cinio Nadolig yng Nghaffi Beca Ragfyr 12fed.

---

Gwnaeth aelodau'r gangen gyfarfod yn y Caffi ar brynhawn Iau, Ionawr 9fed.

Ar ôl edrych ar faterion y mudiad, gwnaeth Angharad groesawu Lilwen McAllister atom. Rhoi hanesion wrth iddi groesawu pobol i'w gwesty wnaeth Lilwen, a hynny yn llawn hiwmor. Sôn hefyd am lawer anrhydedd yr oedd wedi derbyn yn genedlaethol am ei gwaith. Pawb wedi mwynhau prynhawn llawn hiwmor a diddorol dros ben wrth wrando arni a diolchwyd iddi gan Angharad. Eilir wnaeth ennill raffl y mis.

Dylan Harries, yn son am 'Daith i'r Arctig' fydd ein gwestai ar 13eg o Chwefror. Paned, cacen a chlonc i

---

## Cangen Gronw

Llywyddwyd y cyfarfod ar ddydd Mercher, 27ain Tachwedd gan Wenfys Rees. Croesawodd bawb ar brynhawn hyfryd. Darllenwyd cofnodion mis Hydref a cafwyd yn gywir. Ymddiheuriodd Gwenda a dymunwyd yn dda i Jane a Marion sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty. Gwnaed trefniadau terfynol ar gyfer y ginio ym mis Rhagfyr a penderfynwyd ein bod yn dod ag anrheg ar gyfer Santa cudd.

Diolchwyd i Tegwen a Meirwen am gynrychioli'r gangen yn y cyfarfod rhanbarth.

Cyflwynodd Wenfys ein gwestau - Nia Davies o Landysilio. Roedd yn adnabyddus i bawb gan ei bod wedi ei chodi yn Glasfryn, Llanboidy. Dymunwyd yn dda i'w rhieni. Mae Nia yn hoffi gwneud torchau a canolbwyntiodd ar dorchau Nadolig. Rhannodd ei gwybodaeth mewn ffordd ddifyr a rhoddodd nifer o gyfrinachau er mwyn sicrhau llwyddiant. Gwnaeth dair torch un yn defnyddio oasis, un yn defnyddio gwial ac un o raffau a'i harddurno gyda amrywiaeth o blanhigion. Defnyddiodd rhuban, addurniadau Nadolig a goleuadau LED roi gorffeniad tlws. Diolchodd Wenfys iddi am brynhawn difyr iawn. Enillwyd un torch gan Mary Phillips a'r raffl gan Susan Evans. Mary, Eirwen a Tegwen fu yn gyfrifol am y tê a'r bisgedi.



Wenfys Rees, Nia Davies a Mary Phillips

---

Treuliwyd prynhawn hyfryd yng Ngwesty'r Hebog Caefyrddin, i ddathlu y Nadolig ar brynhawn Mercher Rhagfyr 11eg. Cawsom bryd o fwyd arbennig a mawr fu y sgwrsio a'r cymdeithasu. Cafwyd hwyl yn gwneud cwis a tipyn o sbort wrth y 'Santa Cudd'. Diolch i'r merched a wnaeth y trefniadau.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn y Roadhouse yn Hendygwyn ar daf ar ddydd Mercher Ionawr 29ain am 1 o'r gloch, pan byddwn yn cwrdd am sgwrs a phaned.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

## Cangen Hendygwyn

Pleser oedd croesawu Elen Bowen o Gapel Iwan i'n cyfarfod mis Tachwedd. Jean Parri Roberts oedd llywydd y prynhawn ac fe roddodd hi fraslun o hanes Elen i ni. Athrawes gynradd yn ardal Aberystwyth oedd Elen ond roedd hi wastad wedi cael diddordeb mawr mewn creu gemwaith ac yn arbrofi yn ei hamser hamdden. Erbyn hyn a hithau'n fam i ddau o blant bach, mae wedi mentro yn gyfan gwbwl i fyd gemwaith. Mae ganddi weithdy gartref lle mae'n creu'r tlysau ; hefyd mae'n cynnal gweithdau yno. Pan fydd angen modrwy ar gyfer achlysur arbennig, mae'n bosib mynd yno i'w chreu o dan ei chyfarwyddid.

Dangosodd i ni sut i greu blodyn llygad y dydd mewn wincad, roedd e'n edrych mor rhwydd! Peth rhyfedd yw dawn! Buon ni'n holi cwestiynnau ac yna ceson ni gyfle i edrych ar ei chasgliad o emwaith. Buodd rhai ohonom mor ffodus a darganfod yr anrhegion perffaith ar gyfer y Nadolig!

Trafodwyd y trefniadau ar gyfer ein cinio Nadolig ac fe wnaeth Elinor Davies ac Ann Harries ddisgled fach o de i ni. Diolchodd Jean yn gynnes iawn i Elen ac fe orffennon ni'n cyfarfod drwy ganu can y Mudiad.

Cynhalion ni ein cinio Nadolig blynyddol yn nhafarn y Fishers ar Ragfyr 10fed. Daeth criw da ohonom ynghyd a braf oedd cael cwmni Angharad Booth Taylor unwaith eto. Roedd y lle yn gynnes ac yn groesawgar iawn ac fe geson ni wledd arbennig iawn yng nghwmni ein gilydd. Roedd pawb yn cytuno y dylwn ni fynd nol yno eto y flwyddyn nesa'. Ann Harries enillodd y raffl.

Bydd ein cyfarfod cynta' ni yn 2025 yng Nghanolfan Hywel Dda ar Ionawr 21ain. pan ddaw Fflur Dafydd i roi 'Sgwrs a Chan' i ni.

---

## Cangen San Cler

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr ar Ragfyr 12fed ym Methlehem Newydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ym Methlehem Newydd gan Eileen. Danfonwyd dymuniadau gorau at Heulwen yn yr ysbyty ac i Annalyn sy'n anhwylus. Ffair Aeaf – Roedd Iona wedi cystadlu gyda llun o'r gaeaf.

Darllenwyd llythyr yn diolch am y cyfraniad o £114 a gasglwyd gan y gangen tuag at ApêL Teganau Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin. Diolchwyd am y cyfraniadau i Apêl Tŷ Croeso i gasglu siocledi i'r Lloches Menywod a phlant mewn gofal.

Croesawodd y llywydd y siaradwr gwadd, sef Mike Thomas yn wreiddiol o Hendygwyn. Soniodd am ei ddiddordeb yn hanes Abaty Hendygwyn a'r modd y gwnaeth wrando ar ddarlith yn amser y Cyfnod Clo ei sbarduno. Wedi ymchwilio i'r hanes mae wedi bod yn cyflwyno stori Abad olaf yr Abaty mewn cymeriad. Bu'n canu rhai o'r siantiau a chawsom hanes diddymu'r Abaty o safbwynt yr Abad mewn ffordd ddifyr iawn.



Diolchwyd iddo ar ran y gangen gan Iona.

Rhoddwyd y wobr raffl gan Lilwen ac fe'i henillwyd gan Iona. Mwynhawyd sgwrs a rhannu atgofion gyda Mike dros luniaeth ysgafn a baratowyd gan Janet, Eirwen a Doreen. Noson hwylus iawn.

### Clwb Darllen

Cyfarfu'r Clwb Darllen ar Ragfyr 2il a chafwyd trafodaeth ddifyr o'r gyfrol "Gwaddol" gan Rhian Cadwaladr. Roedd pawb wedi mwynhau'r stori ac wedi ei darllen yn rhwydd. Penderfynwyd cyfarfod nesaf ar Chwefror 3ydd ym Methlehem Newydd am 7 o'r gloch a'r llyfr dan sylw fydd "Dim ond un" gan Meleri Wyn James. Croeso i unrhyw un sydd am ymuno.

**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Jean Griffiths, Efailwen | £20 |
| Cynwyl Davies, Meisgyn | £10 |
| Ronnie Morgan, Llanboidy | £10 |

*Diolch yn fawr*

Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Cyfrifwr ac Amcan-Gyfrifwr
(Book-Keeper and Estimator)
Bridge End House
Clunderwen
Hillside
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com
Ffôn / Ffacs: 01437 563497

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir
Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# Cyngerdd Hoelion Wyth

Ar y 15fed o Dachwedd, cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Yr Hoelion Wyth yng Nghaffi'r Emlyn, Tanygroes. Parti 'Pam Lai' o ardal Llambed ddaeth i'n diddaniu, a chafwyd gwledd am awr a hanner yn eu cwmni.

Ffurfiwyd y parti'n wreiddiol ar gyfer Eisteddfod Ceredigion, Tregaron yn 2020, ond daeth Covid a'i ofidiau i chwalu pob trefniant am ddwy flynedd. Pan ail gychwynwyd ymarfer, bu anghytuno a'i doeth neu beidio fuasai cystadlu'n erbyn partion profiadol a oedd wedi hen arfer bod ar lwyfan y Genedlaethol - nifer yn dweud na, ond nifer hefyd am fentro. Yn y diwedd dywedodd un 'Pam Lai' - a dyma'r enw wedi ei eni a'i sefydlu. Arweinydd y parti o fechgyn talentog yw enillydd Cân i Gymru 2024, Sara Davies.

Cafwyd amrywiaeth o eitemau, o'r côr pwerus i unawdau, deuawdau, sgetsys a hyd yn oed band ac arweinydd ffraeth a doniol yn Hywel Roderick. Yn sicr, noson i'w chofio a blesiodd y gynulleidfa niferus yn fawr. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at prostad Cymru, ac ar hyn o bryd heb orffen cael y cyfan i fewn, fe fyddwn yn trosglwyddo £2,000 yn gysurus tuag at goffrau'r achos teilwng yma sy'n effeithio ar ganran uchel o ddynion. Roedd raffl ymghlwm â'r noson hefyd - diolch i'r noddwyr hael sef Caffi'r Emlyn, Tanygroes; Wynne Phillips, Hendy Gwyn; Emyr a Sarah Jones, Drefach Felindre; Clwb Rygbi Tregaron ac O C Davies, Penparc. Diolch yn arbennig i'r 2 brif enillydd sef Hywel Roderick, Pam Lai (£100) a Trefor Evans, Hen Dy Gwyn (£50.00) am ddychwelyd eu gwobrau i'r coffrau.

Diolch eto i Gaffi'r Emlyn am y croeso a'r bwyd hyfryd ac i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y noson.



Parti Pam Lai gyda'r arweinydd Sara Davies

# Eisteddfod Hoelion Wyth

Cynhaliwyd Eisteddfod blynyddol yr Hoelion Wyth yn Nhafarn Ffostrasol ar nos Wener, Tachwedd 29ain. Arweinydd y noson oedd John Jones, Ffair Rhos a'r ddau feirniad oedd Endaf Griffiths, Llanpumsaint a Cennydd Jones, Pontsian.

Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y nos a chyflwynwyd Tlws Beca i'r gangen a fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau llwyfan i gangen Beca, Cors Caron a Sion Cwilt - y dair gangen yn gyfartal. Cyflwynwyd Tlws yr Eisteddfod i'r gangen wnaeth ennill y marciau uchaf i gangen Beca. Enillwyd y gadair am ysgrifennu cerdd ar y testun "Heddwch" gan Eurfyl Lewis, Beca a'r goron am ysgrifennu cerdd ddigri ar y testun "Y Sioe" hefyd gan Eurfyl Lewis, Beca - llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant yn cipio'r dwbwl. Cyflwynwyd Tlws cangen Aberporth am y perfformiad gorau ar y llwyfan (sgets) gan gangen Sion Cwilt. Enillwyd tlws coffa Huw Griffiths gan gangen Cors Caron.

Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni'n gilydd a diolchodd John yn ddiffuant i Endaf a Cennydd am feirniadu, i dafarn Ffostrasol am ganiatau i ni gynnal yr Eisteddfod yno ac i aelodau'r canghennau am eu cefnogaeth. Roedd hi'n wych cael dod at ein gilydd unwaith yn rhagor a treuliwyd amser hyfryd yn cymdeithasu'n braf ar derfyn yr Eisteddfod.

Dyma restr y canlyniadau:-

**Dweud Jôc**
1. John Meredith, Cors Caron
2. Brian Edwards, Beca
3. Wyn Evans, Sion Cwilt

**Stori a Sain**
1. Eurfyl ac Eifion, Beca
2. Iwan ac Wmffre, Sion Cwilt
3. Huw a Daniel, Cors Caron

**Sgetsh**
1. Sion Cwilt
2. Cors Caron
3. Beca

**Eitem Ddigri**
1. Sion Cwilt
2. Beca
3. Cors Caron

**Côr**
1. Cors Caron
2. Beca
3. Sion Cwilt

**Brawddeg ar y gair "ABERAERON"**
1. John Jones, Cors Caron
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. Eurfyl Lewis, Beca


COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

**Brysneges ar y lythyren "M"**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Limrig yn cynnwys y llinell "Y merched sy'n ffynnu'n y campau".**
1. Alun Davies, Cors Caron
2. Alun Davies, Cors Caron
3. Eurfyl Lewis, Beca

**Creu jôc newydd**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Eurfyl Lewis, Beca
3. Eurfyl Lewis, Beca

John Meredith, Cors Caron

**Cerdd ar y testun "Heddwch"**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Jones, Cors Caron
3. John Jones, Cors Caron

**Cerdd ddigri ar y testun "Y Sioe".**
1. Eurfyl Lewis, Beca
2. Calfin Griffiths, Sion Cwilt
3. John Jones, Cors Caron

Calfin Griffiths, Sion Cwilt




Swyddogion, Beirniaid ac Enillwyr y noson





ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP





**Rysait hen ffasiwn - Cacen Datws**

**Cynhwysion**

1kg (2lb 4 owns) o datws sy'n berwi'n feddal.
2 owns o ham wedi ei goginio a'i dorri'n ddarnau mân.
4 owns o gaws wedi ei ratio.
4 wy wedi eu curo
4 owns o friwsion bara
Halen a phupur
2 llond llwy fwrdd o bersli wedi ei torri'n fân.
4 llond llwy fwrdd o olew.

**DULL**

Berwch y tato, a'i pwtsho.
Cymysgwch gyda'r ham, caws, wyau a'r persli a'r briwsion bara
Ychydig o halen a phupur.
Rhowch y gymysgedd mewn tun a'i wasgu gyda fforc.
Gwasgarwch peth o'r bwision bara ar y top.
Ychydig o'r olew dros y cyfan.

Pobwch mewn ffwrn 180ºC /gas 4 am tua 35 – 40 munud i frownio.

Gallwch ei dorri fel cacen, yn dwym neu yn oer.


Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus i Laura Williams a oedd yn 60 oed ar 15fed o Dachwedd
....hefyd i Aled Davies a oedd yn 60 oed ar yr 20fed o Dachwedd
....hefyd i Gary Nicholas a oedd yn 50 oed ar Dachwedd 21ain

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Laura a Dewi Williams. Yn dawel yn ei gartref, ddydd Iau, 5ed Rhagfyr 2024, yng nghwmni ei deulu cariadus, hunodd Goerge Griffiths Llwynffynnon, Penrhiwllan, Llandysul yn 89 mlwydd oed. Priod ffyddlon Cynthia, tad annwyl Laura ac Aled, tad-yng-nghyfraith annwyl Dewi, tad-cu cariadus Angharad a Gethin, hen dad-cu arbennig Mabli, a brawd y diweddar Wally Griffiths.

**Pob Lwc:** Dymuniadau gorau i Gail Morris (Kathy's Hair) yn ei adeilad newydd.

**Graddio**



Llongyfarchiadau i Kirsty Morris ar dderbyn gradd Meistr o Brifysgol Abertawe, mewn Gwyddoniaeth Ymarfer Diabetes, ar 26ain o Dachwedd.

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cinio Nadolig y merched yng Ngholeg Sir Benfro. Noson hyfryd. Diolch iddynt.
Noson gemau bwrdd oedd yn mis Ionawr.
Os hoffech ymuno maent yn cyfarfod yn Neuadd Clunderwen ar nos Lun cyntaf bob mis am 7.30 yh. Croeso cynnes i chi.

# LLANGLYDWEN

**Croeso**
Estynnwn groeso cynnes i Elidyr Beasley sydd wedi symud i 2 Feidr Fair. Hyderwn bydd yn hapus yn ei gartref newydd ac wrth fyw yn ein plith.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Beryl Williams, Llys Ifor a'i meibion Michael, Paul, Julian a'u teuluoedd ar farwolaeth gŵr, tad, tad yng ngyfraith, tadcu a hen dadcu annwyl iawn sef Vivian Williams yn ddiweddar. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Llanglydwen ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 31ain a daeth cynulleidfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Coffa da amdano.

# MEIDRIM

**Henoed**
Daeth 23 o aelodau ynghyd i gael gwasanaeth o ddarlleniadau a charolau a baratowyd gan Meinir a Patsy. Diolchodd Glyn James iddynt am eu gwaith. Eleni cawsom win twym a mins peis ynghyd ag amrywiaeth o fwydydd arall.

Bydd y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blynyddol ar Chwefror 4ydd, yn Neuadd Ieuenctid Meidrim. Hefyd, ar y noson, byddwn yn chwarae Bingo.
Wrth y te: Doreen Thomas, Violet Thomas, Glenda Badhams a Sara Ellis.
Yn rhoi raffl: Shirley Bowen, Morfydd Davies, Jan Harbour a Lawrence Thomas.

# BLAENWAUN

**Moriah:** Trist iawn yw cofnodi marwolaeth sydyn un o'n haelodau sef Michael Evans, Maesyrhaf, a bu farw ar Dachwedd 30ain. Cynhaliwyd gwasanaeth i'w gofio yng nghapel Moriah ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 14ain dan ofal ei weinidog y Parchedig Gareth Ioan. Cydymdeimlwyn yn ddwys â Marina, Rhodri, Heledd, Pat a Gareth.

Yn anffodus oherwydd afiechyd y gweinidog a tywydd anffafriol ni chynhaliwyd yr oedfa ym mis Ionawr.

Chwefror 2il. Cymun Parchedig Gareth Ioan. 10-30
Chwefror 23ain. Brecwast Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca. Bydd angen £10 y pen i archebu tocyn erbyn 10fed o Chwefror. Enwau a'r arian i'r ysgrifennydd plîs.

**Diolch**
Dymuna Pat a Gareth Davies ddiolch am y cyfarchion, anrhegion a galwadau ar achlysur ei Priodas Aur. Hefyd am bob dymuniad da i Pat ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed. Iechyd da i'r ddau i'r dyfodol.

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
*Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.*
*Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.*
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

# GELLYWEN

**Ainon**

Fe'n syfrdanwyd ar fore dydd Mercher, 18fed o Ragfyr gan y newyddion annisgwyl fod Vivian Rees, Llyfnwy, San Cler neu Viv, Boars Head fel yr adnabyddwyd ef o hyd gan ei ffrindiau, wedi marw yn ystod y nos.
Nid oedd wedi bod yn hwylus ers wythnosau ond fe gadwodd i weithio drwy'r amser er yn 75 mlwydd oed, ac ni feddyliodd neb fod y diwedd mor agos. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dianne, Jan a Martin a'u teuluoedd ar golli gŵr, tad, tadcu a hen ddadcu annwyl.

Bu Viv yn gweithio ar fferm neu ddwy wedi gadael ysgol cyn ymuno â chwmni adeiladu Andrew Scott, ond cyn hir fe ymunodd â chwmni Irish Welsh yng Nghaerfyrddin, cwmni dosbarthu cigoedd a peis. Yna fe newidiodd yr enw i Triple Crown a wedyn i Roy's Meats.

Pan gymerodd Peter's Pies drosodd tua phymtheg mlynedd yn ộl fe benderfynodd Viv ddechre ei gwmni dosbarthu ei hun gan ei alw yn Gelli Foods ac yr oedd yn ei waith hyd y diwrnod olaf. Bydd yn dawel iawn o amgylch y tair sir heb ei chwerthin iach a'i storiau digri ble bynnag y byddai.
Bydd na fwlch enfawr hefyd o amgylch y bwrdd coffi yn y farced yng Nghaerfyrddin lle bydde ffrindiau yn cwrdd bob bore dydd Iau a dydd Sadwrn am gwpaned a chlonc.

Bu'r angladd yn Ainon dydd Mercher, 8fed o Ionawr o dan ofal y Cynghorydd Jean Lewis, ac mae'n dyled ni yn fawr iddi am gymeryd at yr orchwyl ar fyr rybudd. Diolch hefyd i'r trefnwyr angladdau, Peter Evans, Ceredigion am eu gwaith trylwyr wrth baratoi'r cyfan gyda'r teulu.
Daeth Sion Page i'r adwy gan fod ein organyddion yn methu bod yn bresennol, hefyd diolch i Derrick Harries am gymryd gofal o'r maes parcio ac i Dyfed a Cecil am lanhau o amgylch y maes. Diolch i Hywel Evans am fod yn gyfrifol am y bedd.

'Roedd y dyrfa enfawr a oedd yn bresennol yn brawf o'i boblogrwydd yn y gymdogaeth.

Croesawyd pawb wedyn i Glwb Rygbi San Cler i gael lluniaeth a chlonc gyda'i deulu a ffrindiau sydd efallai byth yn cwrdd ond ar achlysur trist fel hwn.

**Dymuniadau gorau**

Anfonwn ein dymuniadau gorau hefyd i Brian a Celia, Florrie, Jean, Lloyd, Maggie a Catrin a oedd yn anhwylus ddiwedd mis Rhagfyr a gorfodwyd i ni ohirio ein oedfa a te Nadolig am eleni. Blwyddyn newydd dda i holl ffrindiau'r achos yma yn Ainon.

# RHYDWILYM

Oblegid y gwaith sydd yn mynd ymlaen, nid ydym yn medru cynnal gwasanaethau yn y Capel ar hyn o bryd. Byddwn yn defnyddio y festri neu'r bwthyn.



Yn anffodus oblegid y tywydd stormus, nid oedd yn bosib cynnal gwasanaeth ar Sul, 8fed o Ragfyr. Yr oedd coeden a llawer o frigau wedi syrthio ar draws y rhiw, a dim trydan yn y Cwm. Bydde yn amhosib i fynd lawr a chynnal gwasanaeth. Gobeithio am dywydd mwy caredig yn y flwyddyn newydd.

Rhestr Gwasanaethau
Ionawr 26ain: 10.30 - Orinda Roberts

Chwefror 23ain: 10.00 - Brecwast Gŵyl Dewi yng Nghaffi Beca

Mawrth:
9fed: 10.30 - Cymun - Parch Wyn Morris
23ain: 10.30 - Wyn Thomas

**Llongyfarchiadau**

Bu Iwan a Hedydd Lewis yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar ddechrau mis Ionawr. Llongyfarchiadau i'r ddau ar gyrraedd y garreg filltir hapus yma.

Dymunwn yn dda i'r rhai sydd yn anhwylus ar hyn o bryd, a phob bendith i bawb yn y flwyddyn 2025.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# SAN CLER

Cydymdeimlwn â Eric Davies, Tynewydd a'r teulu ar farwolaeth ei frawd, John, o Gaerfyrddin.

Tristwch oedd clywed am farwolaeth sydyn Dewi Williams, Y Gelli. Cydymdeimlwn â'i wraig Vi, ei blant a'u teuluoedd a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn, hefyd, â John a Jackie Mycroft a'r teulu ar farwolaeth tad John, sef Peter.

Dymunwn benblwydd hapus i Morfydd Davies, Glasfryn Park, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Nos Calan.

Bu Santa a Mrs Clôs yn brysur cyn y Nadolig. Dyma Dewi Griffiths yn cyfarfod â Sion Corn yn siop Pethau Olyv.




Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn Viv Rees o Heol Salem. Cydymdeimlwn â'I wraig, Diane, y bechgyn a'u teuluoedd a'r perthnasau sy'n byw yn ardal San Cler.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Wenallt David, a'r teulu oll ar farwolaeth ei chwaer, sef Llinos David, Pentrehowell, Llanddowror gynt.

Llongyfarchiadau i Byron a Margaret Evans ar enedigaeth ŵyr newydd, Owain; mab bach i Elin a Gareth yng Nghaerdydd a brawd i Mabon.

Llongyfarchiadau i Lyn a Bethan Davies, Derlwyn Tâf, ar enedigaeth ei ŵyr bach newydd. Ganwyd Tobi Wyn i Rhodri a Hannah o Lanybri, brawd bach i Thom.

Bu farw Malcolm Morgan, Pen y ffordd, yng nghartref Garreg Lwyd. Roedd Malcolm yn gyn-aelod o CyD San Cler ac wedi dod i siarad Cymraeg yn rhugl. Cofiwn am ei wraig, Mary, yn ei galar, hithau wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili.

Bu farw Mark Scourfield, Llanerch, ar ddechrau Ionawr. Cydymdeimlwn â'i fam, ei chwaer Stephanie, a'r teulu oll yn eu colled.

**Pethau Olyv**
Ar Ragfyr 18fed darlledwyd rhaglen Bore Cothi o siop Pethau Olyv, Roedd yn rhaglen gynnes a oedd yn adlewyrchu naws ac ethos arbennig y siop. Hysbyseb da i San Cler!



Yn ystod y rhaglen cyflwynwyd siec o £12,330.73 i'r elusen Tir Dewi trwy law'r Parchedig Ganon Eileen Davies. Codwyd yr arian mewn sioe ffasiynau a gynhaliwyd gan Pethau Olyv yn Ysgol Griffith Jones ddiwedd Hydref. Swm ardderchog iawn at yr elusen a phob clod i Olive ac Yvonne a'r criw am eu gwaith.



Criw Pethau Olyv gyda'r Parchedig Ganon Eileen Davies

BELLISSSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur
rhodd neu flodau
angladd.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com



SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

# PWLL TRAP

Danfonwn ein cyfarchion at Heulwen Reese sydd wedi treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty. Gobeithio ei bod nawr ar wellhad.

Dymunwn yn dda hefyd i Jim Davies, Gorsfach, yntau wedi treulio wythnosau yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau mawr i Richard a Linda Holdcroft, Frondeg, Heol Bethlehem, ar enedigaeth merch fach, Bernie Rae, ar Ragfyr 8fed.

Llongyfarchiadau, hefyd i Glyn a Menna Thomas, Penupton, ar enedigaeth wyres, Scarlett. Merch fach i Robert a Louise sy'n byw yn Nhalacharn.

Cydymdeimlwn ag Eurig a Sian Jones, Green Acre, Heol Ffynnongain, ar farwolaeth chwaer Eurig, sef Dawn Thomas o Lanfyrnach.

Cydymdeimlwn â theulu Mick Turner o Gorsfach a fu farw'n mis Rhagfyr.

Bu farw Julian Narbett o Gors Fach. Cydymdeimlwn â'i deulu yntau hefyd.

Cydymdeimlwn hefyd â Don ac Eirlys James, Parc Llwyncelyn, ar farwol eth brawd Don, sef Noel James, a oedd yn byw ym Meidrim.

Bu farw John Gilbert o Glos Nathaniel. Cydymdeimlwn â'i wraig Jenny a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Brian White o Glos Nathaniel ar eu colled hwy.

**Bethlehem Newydd**
Cafwyd noson wefreiddiol yng nghwmni'r gantores Lleuwen Steffan, ar Dachwedd 18ed. Roedd yn cyflwyno emynau coll y werin a braf oedd clywed lleisiau o slawer dydd a'i dehongliad hithau o'r emynau a chanu Pwnc.

**Cwrdd Cwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**



Cynhaliwyd Cwrdd Cwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ym Methlehem Newydd ar Dachwedd 21ain. Y gynhadledd oedd oedfa'r bore. Llywyddwyd gan Gadeirydd y Cyfundeb, y Parch Guto Prys ap Gwynfor a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Verian, Rhiannon, Rhys, a Marian. Cafwyd amlinelliad diddorol o hanes ac adnewyddiad a gweithgareddau diweddaraf y capel gan y gweinidog cyn y cyfarfod busnes. Mwynhawyd lluniaeth a chyfle i gymdeithasu cyn oedfa'r prynhawn. Yn oedfa'r prynhawn cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Janet, Rhian ac Arwel cyn i'r cadeirydd drosglwyddo'r gadeiryddiaeth i Jean Lewis o Gapel y Graig, y cadeirydd newydd.



Cafwyd anerchiad ddiddorol a grymus gan Jean cyn iddi weinyddu'r Cymun. Gwnaed y diolchiadau gan Elinor Jameson o Gapel Penybont. Cyfeiliwyd yn y ddau wasanaeth gan Dai Rees. Dymunwn yn dda i Jean am ei chyfnod fel Cadeirydd y Cyfundeb.

Cynhaliwyd tair oedfa ym Methlehem Newydd drwy gyfnod yr Adfent. Diolch i'r sawl a fu'n paratoi ac a fu'n cymryd rhan. Ar bedwerydd Sul yr Adfent cafwyd oedfa Nadolig fendithiol o dan ofal yr aelodau a chafwyd myfyrdod gan y gweinidog. Diolch hefyd i bawb a fu'n addurno'r capel ac yn paratoi lluniaeth ar ddiwedd pob oedfa.

**Tŷ Croeso**
Casglu nwyddau i greu hamperi i'r Lloches Menywod oedd apêl Nadolig Tŷ Croeso. Casglwyd llawer iawn o nwyddau a diolch i bawb a gyfrannodd, hefyd Pethau Olyv a Mols Bistro am dderbyn nwyddau.

Trosglwyddwyd hefyd nwyddau a gasglwyd i Fanc Bwyd Hendygwyn cyn y Nadolig

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH
CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*



Ffôn: 01994 230474



Yn y llun gwelir Wendy o'r Lloches yn derbyn y nwyddau oddi wrth Annalyn a Janet o Tŷ Croeso.

Cynhaliwyd Gŵyl y Gân, Gŵyl y Geni ym Methlehem Newydd ar brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 14eg. Daeth nifer ynghyd i gymdeithasu, gwrando ar ddarlleniadau ac ymuno i ganu carolau dros fins pei a gwin poeth. Diolch i bawb a fu'n trefnu a chymryd rhan.



Cyflwynwyd rhodd arbennig i'r capel gan St Clears Men's Shed. Seren Bethlehem, a wnaethpwyd gan un o aelodau'r Men's Shed. Rhodd i ddangos eu gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a roddir iddynt gan yr eglwys.



Gweithgaredd newydd cyffrous ar gyfer 2025 fydd Caffi Cofio. Bydd croeso mawr i rai sydd ag anhawsterau cofio a'u gofalwyr i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a chael hwyl. Unwaith y mis gan gychwyn ar Ionawr 15fed.

**Tŷ CROESO**
Bethlehem Newydd
Pwlltrap
**Caffi Cofio**
Dydd Mercher, Ionawr 15fed
**10.30 - 11.30**
Cyfle i rai sydd ac anhawsterau cofio a'u gofalwyr i ddod at ei gilydd i gymdeithasu
Gweithgareddau amrywiol a chyfle i ganu hen ganeuon
*Croeso i bawb*

# LLANBOIDY

**Diolch**

Dymuna Hubert Phillips, Waunfawr ddiolch i bawb am eu cyfarchion a rhoddion ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed. Bu'n casglu arian i Cancr Prostad Cymru ac mae'n diolch i bawb a gyfranodd a'i helpu i gasglu £550 tuag at yr elusen.

**Chwaeroliaeth**

Ar Dachwedd yr 20fed daeth yr aelodau ynghyd yn y festri o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb i'r cyfarfod a bu'n dymuno'n dda i merch Gwenda ar ei phriodas yn ddiweddar. Yna croesawodd y gwestai, sef y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog ddu. Bu'n adrodd hanes ei deithiau tramor niferus, yn cynnwys Canada lle bu'n cwrdd â nifer o Gymry Cymraeg, ymweld â Niagra Falls a mwynhau Cymanfaoedd Cymraeg. Hefyd mae wedi teithio o un pen o Batagonia i'r llall a chwrdd â siaradwyr Cymraeg niferus yno. Gymaint oedd ei fwynhad, mae wedi bod yn ôl yno 13 o weithiau. Diolchodd Wenfys iddo am brynhawn diddorol. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Myfanwy Thomas a Marion Davies.

Ar Rhagfyr 7fed, buodd yr aelodau yn mwynhau prynhawn dymunol iawn yng Nghanolfan Hywel Dda, lle cafwyd te prynhawn. Crosawodd Wenfys pawb i'r byrddau a diolchodd i Christine am y wledd a baratowyd.

**Oedfa Nadolig**

Cafwyd bore i gofio yn Llanboidy ar ddiwrnod yr oedfa Nadolig unedig ganol Rhagfyr.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

Y bwriad oedd cynnal y gwasanaeth yng Nghapel y Trinity ond oherwydd trafferthion gyda'r trydan bu'n rhaid symud yr oedfa ar frys i Eglwys Sant Brynach yr ochr draw i'r ffordd.
Cafwyd oedfa i gofio yn cynnwys cystadleuaeth y siwmper Nadolig orau! Symudwyd y mins peis hefyd a chafwyd cyfle i gymdeithasu ar ôl yr oedfa. Diolch i wragedd Trinity am baratoi.

Diolch i bawb a wnaeth weithio'n galed a chyd-weithio yn hyfryd i sicrhau fod yr oedfa yn gallu mynd ymlaen.



Cystadleuaeth y siwmper Nadolig orau



Cymdeithasu ar ôl yr oedfa

**Sefydliad y Merched**
Cyfarfu'r aelodau ar Ragfyr 12fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Cafwyd prynhawn cymdeithasol gyda phawb yn cyfrannu tuag at y bwyd.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i William Phillips, Plas y Bwci sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i ni'n cofio hefyd am Angela sydd wedi symud i Ysbyty Singleton a gobeithio bydd adref cyn bo hir.

**Diolch**
Dymuna Ronnie Morgan, 3 Piccadilly, Llanboidy ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, arian a'r holl negeseuon ar Face Book ar achlysur ei benblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch hefyd i'w ddwy ferch, y plant a'r plant yng nghyfraith am drefnu parti iddo. Diolch hefyd i Eirian James ac Angharad Phillips am drefnu parti ar ran y Clwb Bowlio a'r Clwb Cymdeithasol. Diolch yn fawr i bawb.

**Cawl a Chân**
Dydd Gŵyl Dewi
Neuadd y Farchnad Llanboidy
Mawrth 2il am 2 o'r gloch
Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch
Tocynnau: Oedolion £10 / Plant dan 10 oed £5
ar gael wrth aelodau'r pwyllgor
neu delythbebb@gmail.com



Mae Menter Gorllewin sir Gâr yn cyflwyno
CLWB CINIO LLANBOIDY
31/01/25 • 28/02/25 • 28/03/25
11.45yb yn Neuadd Llanboidy
Cinio i ddinasyddion hŷn
Pryd 2 gwrs am ddim
I gofrestru: gwyneth@mgsg.cymru
01239 712934

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Bu rhaid gohirio'r oedfa dan ofal Donna George ar Sul, 8fed o Ragfyr oherwydd storm 'Daragh'.
Cynhaliwyd oedfa gymun a gwasanaeth Nadolig ar Sul, Rhagfyr 15fed. Braf oedd croesawu'r Parch. Huw George nôl atom ar ôl cyfnod o salwch ac edrychwn ymlaen i gael ei wasanaeth eto yn 2025. Paratowyd lluniaeth gan y merched i bawb ar y festri wedi'r oedfa.

DAVID HARRIES & Co
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk



JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**Trefn oedfaon Chwefror**
2il: Oedfa gymun dan ofal Mr Hefin Wyn - 10.30
9fed: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30
23ain: Brecwast Gŵyl Rhinwedd a Moes yng Nghaffi Beca am 10 o'r gloch.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwyd â Roy Reynolds, Michael Davies, Llinos Thomas a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith ac ewythr sef Dewi Williams, (gŵr Vi, East-gate gynt) o Fferm Gelly, San Cler.
....hefyd â Roy Llewellyn. Bu farw Elwyn Harries, cymar ei chwaer Beryl.
....hefyd cydymdeimlwn â Nan Thomas a Brian John ar farwolaeth cyfnither, sef Mrs Merle Davies, Crymych (gynt o Hebron). Roedd Merle yn un o Gyfeillion yr Achos yn Ramoth.

# LLANDYSILIO

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Emyr a'r teulu, ar farwolaeth Christine Bowen, Maes Carafannau Llandysilio.

...hefyd â theulu Olive Mary Pritchard o Landysilio, a fu farw yn dawel ar ddydd Mercher, Tachwedd 13eg yn Ysbyty Llawynhelyg yn 82 oed. Partner annwyl Nigel Narbett, mam gariadus Suzanna a'r diweddar Helen, mamgu annwyl Saska a'i gŵr Lewis, a Sanna. Hen fam-gu hoffus William a Grace, chwaer yng nghyfraith annwyl i Maureen a Gerwyn, Jen a Noel.

....yn dawel ddydd Mawrth 19eg o Dachwedd, yn ysbyty Llwynhelyg, bu farw Elwyn Skeel Harries (Pask) o Landysilio. Cymar annwyl a chariadus Beryl, tad gofalgar a thyner Hefin a Rhys, llysdad arbennig, tadcu cariadus ei wyrion a'i orwyrion a brawd ffyddlon. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd i gyd.

**Penblwyddi**
Penblwydd hapus iawn i Daniel Phillips a oedd yn 30 oed ar 29ain o Rhagfyr.
....hefyd i Rebecca Roblin-Pearce a oedd hefyd yn 30 oed ar 5ed o Ionawr.

**Llongyfarchiadau** i Iwan Lewis, mab Colin a Carina Lewis. Ar ôl 18 mis mae wedi gorffen ei lefel 4 mewn prentisiaeth yng Ngholeg marchnata Caergrawnt gyda gradd rhagoriaeth. Pob lwc i ti yn dy swydd newydd.

**Capel Blaenconin**
Oherwydd y tywydd garw, bu rhaid gohirio'r Cwrdd Nadolig gan greu anhawsterau i'r trefniadau gwreiddiol ond ar 15fed o Ragfyr daeth y brawd Huw Roberts a'i wraig Gwawr Owen atom i gynnal cwrdd. Cymerwyd at y rhannau darllen gan yr aelodau. Canodd Huw unawd a chwaraeodd Anthony Gibby garolau ar yr organ geg gan greu naws hyfryd yn y capel a oedd wedi cael ei addurno gan y chwiorydd. Buom yn ffodus iawn i gael cwmni Ffion Thomas yn yr oedfa a chawsom berfformiadau swynol a phroffesiynol iawn ganddi gyda Gwawr yn cyfeilio a hefyd yn chwarae unawd ar y piano.
Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran.

# BANCYFELIN



Bu eglwysi Cana a Bancyfelin ynghyd â gweddill yr Ofalaeth yn cefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eleni eto. Bu'r ymateb i'r apêl yn gwbwl wych, a phleser oedd trosglwyddo'r anrhegion i swyddogion y Cyngor Sir.

**Capel Cana**



Cynhaliwyd Oedfa Nadolig Capel Cana, Bancyfelin bnawn Sul, 15 Rhagfyr. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i wrando







a gweld plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno neges y Nadolig. Roedd yr oedfa yn un fendithiol iawn a'r plant dan arweiniad Rhian Bowen a Carolyn Hancock wedi bod yn gweithio'n galed yn paratoi ar ein cyfer. Roeddynt yn haeddu'r te parti ardderchog a baratowyd ar eu cyfer yn y festri wedi'r oedfa ac wrth gwrs, ymweliad gan Sion Corn! Prynhawn a fydd yn aros yn y cof yn wir.

**Capel Bancyfelin**



Er gwaetha'r tywydd garw, daeth cymulleidfa niferus i oedfa Nadolig Capel Bancyfelin dan olau cannwyll. Roedd naws hyfryd yn y capel wrth i rhai o deuluoedd yr eglwys arwain yr oedfa. Mwynhawyd paned o win Nadoligaidd poeth a mins pei wedi'r oedfa, a hynny ar ôl ymweliad blynyddol Sion Corn! Noson hyfryd a oedd yn baratoad ardderchog i wythnos y Nadolig.

**Gibeon**

Cynhaliwyd yr oedfa Nadolig ar brynhawn Sul, Rhagfyr 15fed o dan ofal plant a ieuenctid yr Ysgol Sul a'r aelodau. Defnyddiwyd y gêm Pasio'r Parsel fel thema i'r oedfa ac wrth i haenau'r parsel gael eu hagor gan y gynulleidfa cafwyd darlleniadau, drama, caneuon a gweddiau yn ymwneud â'r rhan hynny o Stori'r Nadolig. Cafwyd oedfa hyfryd, diolch i bawb a gymerodd ran, i Hilary am gyfeilio ac i Beti-Wyn a Iona am baratoi'r oedfa. Diolch yn arbennig i blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul am eu presenoldeb a'i gwaith, pleser oedd gwrando arnynt yn yr oedfa (fe chwaraewyd clip ohonon nhw'n canu ar raglen Trystan ac Emma ar Radio Cymru ar Ragfyr 20fed).

I ddiweddu'r oedfa fe ddosbarthwyd anrhegion oddi wrth Sion Corn i aelodau'r Ysgol Sul. Diolch i Iona am gyflwyno'r anrhegion a rhoi ychydig o hanes gweithgareddau'r flwyddyn yn yr Ysgol Sul. Gwnaed casgliad, a derbyniwyd £147 ar gyfer Gaza Apêl Cymorth Cristnogol.



Llun o bawb fu'n cymryd rhan yn yr Oedfa Nadolig.

Trosglwyddwyd nwyddau a gasglwyd i Fanc Bwyd Hendygwyn cyn y Nadolig.

Dymunwn benblwydd hapus i Ann Richards a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar Ragfyr 19eg.

Trist gennym oedd clywed am farwolaeth sydyn David James, Bryntawel ar ddydd Calan. Cydymdeimlwn yn ddidwyll â'i wraig, Angela, a'r meibion Dafydd a Gruffydd a'r teulu oll ar eu colled.

Ddiwedd y flwyddyn fe wnaeth y Parch. Rhodri Glyn Thomas ymddeol fel gweinidog yng Ngibeon. Bu'n gwasanaethu arnom am dros 30 mlynedd a mawr yw ein dyled iddo am bob peth a gyflawnodd. Diolchwn yn ddiffuant iddo am ei ofal o'r Eglwys. Os dywed un aelod "bydd hi'n wag iawn ar ei ôl." Dymunwn yn dda iddo am y dyfodol.

# LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Jennifer a Howard Evans, Plasbach, ar ddod yn famgu a dadcu i ŵyr bach arall. Ganwyd Elis Thomas Wilkins, mab Bethan a Gareth, ar Dachwedd 11eg, 2024. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.

**Gwellhad buan**

Pob dymuniad da am wellhad buan i Michael Morris, Blaenffynhonnau, yn dilyn llawdriniaeth i osod penglin newydd ychydig cyn y Nadolig.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Roy Reynolds, Tymore, ac â Llinos a Geraint, Carreglwyd, ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith ac ewythr, sef Dewi Williams, Fferm y Gelli, Sanclêr..... ...hefyd â Rosalie ac Adrian Williams a'r teulu, Clawddcam, ar farwolaeth ewythr Rosalie, sef Thomas John Thomas o Langynog. Cofiwn am bob un o'r teuluoedd hyn yn eu colled.

**Bingo'r Bryn**

Nos Fercher, Tachwedd 20fed, cynhaliwyd Noson Bingo gan Bwyllgor Rheoli Neuadd Capel y Bryn i godi arian ar gyfer costau rhedeg y neuadd.

Bu'r noson yn llwyddiannus dros ben, ac roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o gyfeillion o bentrefi cyfagos wedi dod i gefnogi'r fenter, yn ogystal â thrigolion Llangynin a'r plwyf. Glyn Rees o Sanclêr oedd yn galw, ac yn ystod yr egwyl bu'r gwragedd yn gweini te a choffi a bisgedi, a chafwyd cyfle i dynnu'r raffl.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan Caroline Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli. Gwnaethpwyd elw o £214.40 tuag at gostau rhedeg neuadd y Bryn.

**Pen blwyddi arbennig**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mary Davies, Angorfa, a oedd yn 94 oed ar Ragfyr 6ed, 2024.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Lia Howells, Brohedydd, ar ei phen blwydd arbennig yn 50 oed ar Ragfyr 23ain. Pen blwydd hapus iawn i ti Lia!



Pen blwydd hapus iawn i Don Phillips, Gorwelion, a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed ar Ionawr 7fed, 2025.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Y siaradwraig wâdd yng nghyfarfod mis Tachwedd oedd y Parchedig Beti Wyn James, sef y wraig gyntaf erioed i ymgymryd â rôl Arwyddfardd Gorsedd Cymru. Eglurodd Beti mai'r Arwyddfardd sy'n gofalu am ddodrefn a regalia'r Orsedd. Mae'n gyfrifol am orymdeithiau'r Orsedd a chynorthwyo'r Cofiadur gyda chyfarwyddo'r seremonïau.

Roedd yn noson hwylus a phawb wedi mwynhau yn gwrando ar ei storiau doniol a'r troeon trwstan sydd wedi digwydd iddi yn ystod ei gwaith.

Ar nos Fercher, Rhagfyr 11eg aeth aelodau'r Gymdeithas Gymraeg i Gaffi Beca i fwynhau cinio Nadolig blasus dros ben a llond bol o chwerthin hefyd wrth wrando ar storïau'r siaradwr gwâdd am y noson, sef Mr John Davies, Cwmbetws.



Yn y llun gwelir Mr John Davies a Mrs Bethan Picton-Davies yng nghwmni Elfed Lewis, y Cadeirydd, ynghyd â swyddogion y Gymdeithas.

## RHYDYCEISIAID

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ronnie Morgan, 3 Piccadilly ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 23ain ac i Mair yn 86 oed ar Ragfyr 18fed. Iechyd da i chi'ch dau.

Rydym yn cofio yn dyner am Miss Gwennie Rees, Cartref Maes Llewellyn a ddathlodd ei phenblwydd yn 91 oed ddiwedd mis Tachwedd.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Michael Evans, Maesyrhaf, Blaenwaun ar Dachwedd 30ain. Cydymdeimlwn yn ddwys â Marina, Rhodri a Heledd yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl. Cydymdeimlwn hefyd â Graham, Keith a Gwyneth a'u teuluoedd o golli brawd yng nghyfraith, a'r perthnasau i gyd. Cynhaliwyd yr angladd luosog yng Nghapel Moreia o dan ofal ei weinidog y Parchedig Gareth Ioan a'r organyddes oedd Mrs Hilary Evans.

LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk



# LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i Mr Hefin Wyn am ei wasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn. Bu rhaid gohirio oedfa dan ofal y Prifardd Tudur Dylan ar Ragfyr 8fed oherwydd Storm Daragh.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Chwefror
9fed: Catrin Isaac Thomas - Cymun am 10.30
23ain: Brecwast Gŵyl Ddewi - Caffi Beca am 10.00
Mawrth
9fed: Wyn Morris - Cymun am 2.00
23ain: Wyn Thomas - Cwrdd am 2.00

**Cwrdd Nadolig**
Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghalfaria Login ar fore Sul, Rhagfyr 22ain, gydag aelodau y capel yn cymryd rhan. Canwyd rhai carolau cynulleidfaol, a fe'u cyhoeddwyd gan Mefin Lewis, Delyth Morris, Betty Evans a Sian Wills, gyda Betty yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Sian Davies, Beti James, Owen Jenner a Les Owen, ac fe'n tywyswyd mewn gweddïau gan Nigel Vaughan ac Eurfyl Lewis. Adroddodd Endaf Jones, Eurfyl, Nigel, Faith Wright ac Eurig Jones gerddi gan feirdd lleol a fe wnaeth Ceirios Jenner ddweud stori am daith y pedwerydd brenin, yn ogystal â rhoi anerchiad byr. Canodd Beti a Sian gwpwl o ganeuon Nadolïgaidd, ac ymunodd Ceirios i ganu cân arall gyda nhw.

Diolchodd Eurfyl i bawb am gymryd rhan a dymunodd Nadolig llawen a dedwydd i bawb.

Hoffai aelodau'r capel ddiolch i Eurfyl Lewis, ysgrifennydd Calfaria, a Faith Wright, trysorydd y capel, am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn yma eto.

**Gwellhad**
Dymunwn wellhad buan i Tudur Lewis a Margaret Williams - y ddau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Beryl Thomas ar farwolaeth Elwyn Harries, ei chymar. Cynhaliwyd angladd Elwyn yng Nghapel Pisga, Llandysilio ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 28ain a daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo. Coffa da amdano.

# Canolfan Ffynnonwen

Daeth pawb ynghyd ar nos Sul, 15fed Rhagfyr i gynnal ein gwasanaeth blynyddol o ganu carolau yng Nghapel Cwm Miles. Ceirios Jenner oedd wrth yr organ a llywyddwyd y gwasanaeth gan Clive Edwards yn ddawnus iawn. Hefyd gwnaeth ganu carolau yn unigol a gwnaeth hyn greu awyrgylch arbennig. Diolch i'r ddau am eu harweiniad. Casglodd pawb wedyn ar y festri i gymdeithasu a chael gwîn poeth a mins pei. Achlysur hwylus iawn a diolch i bob un a wnaeth gyfrannu at lwyddiant y gwasanaeth.


Cynulleidfa'r oedfa garolau


Cymdethasu ar y festri

Daeth y flwyddyn newydd â newyddion trist i'r ardal oherwydd marwolaeth sydyn Hywel Passey, Bronllwyn, Login un o hoelion wyth y ganolfan. Gwelwn ei eisiau yn fawr iawn. Cydymdeimlwn yn ddwys â Sonya a'r teulu estynedig.

Gobeithir cynnal y cyfarfod nesaf ynghyd â noson gymdeithasol ar Nos Wener, Ionawr 24ain am 7 o'r gloch. Pawb i ddod a rhywfaint o luniaeth.

Mae'r dosbarth gwnïo wedi ail ddechrau ar 18fed Ionawr 9-30 i 11-30. Croeso i aelodau newydd. Cysylltwch â Meinir.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU,
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
PVCU
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Mae'n siwr mae'r Nadolig yw un o'r uchafbwyntiau ym mywyd pob capel ac felna oedd hi yn y Taberrncl, Hendy-gwyn eleni. Er y bu rhaid gohirio yr oedfa garolau unedig oherwydd storm Darragh fe gynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill.

Roedd yr oedfa Nadolig yng nghofal y plant a'r ieuenctid ac fe wnaethant ei gwaith yn ardderchog wrth adrodd stori'r geni a rhoi hanes nifer o drddodiadau y Nadolig.



Oedfa Nadolig y plant a'r ieuenctid

'Crist yn y rwbel' oedd thema oedfa Nadolig yr oedolion ifanc eleni wrth iddynt sôn am y sefyllfa drychinebus yn Gazza heddiw ac yn arbennig sôn am ymdrechion un dyn arbennig sef Munther Isaac i gael cymod a heddwch yn Gazza.



Oedfa yr oedolion ifanc

Braf oedd croesawu dau aelod newydd dros y Nadolig sef John Lewis a Ffion Moseley. A diolch iddynt am weld ei ffordd yn glir i ymuno gyd ni fel eglwys.



John Lewis gyda'i ferch Helen Thomas



Ffion Moseley (ar y dde) gyda Meryl James



*Janet Knott gyda Meurig James*

Janet Knott, Bancycapel, oedd y wraig wadd yng nghyfarfod mis Rhagfyr o Gymdeithas y Tabernacl. Fe siaradodd am offer meddygol slawer dydd gan ddod a nifer o eitemau gyda hi i ddangos beth fyddai doctoriaid a nyrsys yn ei ddefnyddio yn y gorffennol.

Ac yn olaf os oes rhywun eisiau ymuno â ni ar y Suliau y flwyddyn newydd yma, bydd croeso mawr yn eich aros chi.

**Penblwydd hapus**

Dymuniadau gorau i Lyn Lewis, Brynglas, Hendygwyn-ar-Dâf sydd yn dathlu ei benblwydd yn 60 mlwydd oed ar y 26ain o Ionawr. Cariad mawr wrth y teulu i gyd.

arwyddion EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Diolch yn fawr iawn i Sion Corn am ddod i ymweld â'r plant yn ystod eu parti Nadolig.



Mwynhaodd y plant wisgo i fyny a pherfformio eu cyngerdd Nadolig i rieni a theulu.

## Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

Enillwyr Rhagfyr 2024

£60 - Wynne Phillips 'Trucks'.
£50 - T.G.Watkin.
£40 - Claire a Charlotte Adams
£30 - John Jones

Gwobrau arbennig

£50 - Bysiau Cwm Taf
£50 - Elfan Bell.

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

**Rhagfyr** - Croesawyd ein gŵr gwadd Dr Glan Rees i'r cyfarfod nos Iau, 5ed o Ragfyr gan ein Cadeirydd Claude James. Trwy air a llun eglurodd Glan iddo ef a'i dîm drwy ymchwil gofalus ddarganfod bwysigrwydd ac effaith aspirin i osgoi clefyd y galon. Gwelwyd bod y cyffur yn atal un o gynhwyson y gwaed, y platelets, rhag glynu i'w gilydd i ffurfio clot a fedr symud i'r galon a chreu trawiad ar y galon, darganfyddiad sydd wedi diogelu bywyd llawer ohonom.

Mae Glan yn dal yn brysur er ei fod wedi ymddeol, mae en ymddiriedolwr o'r St Davids Medical Foundation ym Mhrifysgol Feddygol Abertawe sydd yn cefnogi ymchwil arloesol a hefyd mae yn cael pleser mentora myfyrwyr ymchwil yn eu astudiaethau.
Cawsom noswaith arbennig, difyr ac addysgiadol yn ei gwmni a diolchwyd i Glan yn wresog gan Ithel Parri Roberts.

**Ionawr 2025** - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar Ionawr 2il, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Ein siaradwr gwadd oedd y newyddiadurwr Tweli Griffiths. Yn enedigol o Bencader, cafodd ei addysg Uwchradd yn Ysgol Ramadeg Llandysul ac wedyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Siaradodd am rai o'r gwledydd bu'n ffilmio ynddynt ar ran rhaglenni newyddion. Bu'n ffilmio mewn llawer gwlad yn cynnwys Cuba, Ethiopia, yr Arianin, Lybia, Israel a llawer un arall. Soniodd am Lybia lle cafodd groeso cynnes a chael cyfle i gwrdd a chyfweld Gadafi, arweinydd y wlad.

Aeth ymlaen i sôn am Eisteddfod Cymru De Affrica yn Johanesburg. Cyrhaeddodd y gwesty ac yn annisgwyl, gweld poster llachar ac arno Eisteddfod 93.

Bu'n ymweld ag Ethiopia – ei hoff wlad er gwaethaf y dioddefaint a'r tlodi enbyd. Iwerddon oedd gwlad arall bu'n ymweld yn rhinwedd ei swydd a hynny adeg y trwbwl a'r terfysg.

Newid cywair am gwarter olaf y noson wrth iddo ddangos ei ddawn fel consiriwr. Mae diddordeb Tweli yn y grefft yma'n mynd nôl i'r amser oedd yn yr ysgol a dangosodd amryw o driciau oedd yn wirioneddol glyfar.

Noson ddiddorol dros ben a diolchwyd i Tweli gan Wyn Evans.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref

Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

# LLANDDEWI

**Bethel**

Daeth pawb ynghyd yn Llanddewi eleni eto ar gyfer oedfa Nadolig unedig a chafwyd oedfa hyfryd wrth fynd trwy stori'r geni trwy ddarlleniadau o'r ysgrythur a thrwy ganu carolau Nadolig traddodiadol.

Cafwyd nifer o gyfraniadau gan aelodau Bethel, Ffynnon ac Eglwys Dewi Sant a chafwyd cyfle i gymdeithasu yn hyfryd ar y diwedd fel arfer.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd ac yn arbennig i Janet ac Owen Phillips am baratoi y bwyd i gyd.



Oedfa Nadolig unedig



Cymdeithasu yn dilyn yr oedfa

# HENLLANFALLTEG

**Priodas Ddiemwnt**

Pob dymuniad da i Iwan a Hedydd Lewis, Delfryn, Cross Hands, Henllan Amgoed a ddathlodd eu Priodas Ddeiamwnt ar 2il Ionawr. Carreg filltir arbennig. Cyfarchion wrth y teulu, cymdogion a ffrindiau. Hoffai'r ddau ddiolch o galon am y cyfarchion.

# C Ff I PENYBONT

Bu'n fisoedd prysur i'r clwb gyda llwyddiant yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg.

Canlyniadau
1af Penybont - Adran Iau
1af Celyn Richards - Unigolyn gorau adran iau
1af Penybont - Adran Hŷn
1af Daniel O'Callaghan - Unigolyn gorau adran hŷn
1af Celyn Richards - Unigolyn gorau adran ganol
2il Tîm Swyddfa (Celyn, Gwenan ac Elan) - Adran Ganol
2il Tîm Swyddfa (Hannah) - Adran Hŷn

Llongyfarchiadau enfawr i'r aelodau sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru.



Enillwyr Siarad Cyhoeddus Saesneg

**Barnu Carcas / Barnu ŵyn tew**

Llongyfarchiadau enfawr i'n haelodau sydd wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu.
Canlyniadau:
1af Elan Thomas - Barnu Carcas dan 21
1af Olwen Roberts - Barnu ŵyn tew dan 16
Llongyfarchiadau i'r aelodau sydd wedi mentro cystadlu am y tro cyntaf.

**Ffair Aeaf**

Llongyfarchiadau i'n holl aelodau a fu'n cystadlu yn y Ffair Aeaf.

1af Elan Thomas - Beirniadu Carcass
2il Olwen Roberts - Beirniadu Stoc Bîff
2il Gwion Jones-Howells - Bîff Ifanc Anner Gorau

HUW JONES
ADEILADWR
Dorset House
Heol y Gogledd
Hen Dy Gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240811
Symudol: 07817 633329



DERI PAGE
CIGYDD







Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES



Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: **01239 612814 / 07765 034705**

3ydd Olwen Roberts -
Beirniadu ŵyn tew

Llongyfarchiadau i holl aelodau Sir Gâr.

1af Barnu Stoc Ffair Aeaf 2024 -
Sir Gâr
1af Ffederasiwn fuddugol yn Ffair Aeaf 2024 - Sir Gâr



Olwen Roberts



Elan Thomas



Gwion Jones-Howells

# TRELECH

Ein cydymdeimlad dwysaf â David a Caroline Harries, Hendygwyn (Blaendewi Fawr gynt) ar farwolaeth brawd David, Elwyn o Llandysilio.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Ina Barnett, Clun View ar golli ei brawd yng nghyfraith, George (brawd Frank) ychydig cyn y Nadolig.

Gwellhad buan i Brian, Esgairlydan sydd wedi bod yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin am gyfnod.

Llongyfarchiadau mawr i Tegwyn, Bryn Ambor sydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod y mis.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unryw ffordd at y canu carolau o amgylch yr ardal cyn y Nadolig . Llwyddwyd i gasglu £925 at elusen Cancr y Prostad.

**Capel y Graig**

Bu cyfnod y Nadolig yn un prysur iawn i aelodau a chyfeillion Capel y Graig. Ar ddydd Iau, 21ain o Dachwedd, cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb yr Annibynwyr yn Bethlehem Newydd, Pwll-Trap, gyda'r gynhadledd yn y bore. Yn sesiwn y prynhawn, croesawyd y Cadeirydd newydd, Jean Lewis gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor. Seliwyd anerchiad Jean ar y geiriau cyfarwydd o bennod gyntaf Efengyl Ioan, `A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.' Cafwyd cyfraniadau diddorol a graenus gan weinidog ac aelodau Bethlehem Newydd i'r gynhadledd ac i'r oedfa gymun. Diolch am y croeso twymgalon a'r lluniaeth blasus. Diolch i'r aelodau o Gapel y Graig a wnaeth fynychu ac i David Harries ac Alun Davies am helpu gyda dosbarthu'r cymun. Diwrnod i'w gofio.

Ar y 1af o Ragfyr, cafwyd oedfa yn y festri gyda'r aelodau a chyfeillion yn cymryd rhan. Diolch yn fawr i Alun Davies, Elaine Davies, Eifion Jones, Gwawr Lewis, Elin ac Anwen Phillips. Bu Maureen Rees yn son am arwydocad canhwyllau'r Adfent, Eirlys Phillips oedd yn cyfeilio. Ar ôl yr oedfa, cafwyd lluniaeth `mulled wine a mins peis' a chyfle i brynu cacennau er mwyn codi arian tuag at Ffynhonnau Byw. Diolch i Eleri Rees am wneud y `mulled wine' ac i bawb ddaeth â chacennau ac i bawb wnaeth brynu. Yn dilyn y lluniaeth, bu Mrs Mary Thomas yn troi golau'r goeden Nadolig ymlaen a diolch iddi am ei chyfranid hael i Gapel y Graig.

Bu'n rhaid gohirio'r oedfa oedd i'w chynnal ar yr 8fed o Ragfyr oherwydd y tywydd stormus a diffyg trydan.



Yr Ysgol Sul yn eu gwasanaeth Nadolig

Daeth cynulleidfa niferus i Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r Bobl Ifanc ar y 15fed o Ragfyr. Diolch yn fawr i'r plant am berfformiad gwych. Diolch yn fawr iawn i'w hathrawon Eirlys Phillips, Eleri Rees ac Anwen Phillips am hyfforddi, ac i'r bobl ifanc am eu cyfraniadau graenus hwythau sef Anwen, Dafydd, Deiniol, Elis, Ffion Thomas, Steffan gyda pharti o ferched yn canu. Eirlys Phillips a Buddug James Rees oedd yn cyfeilio. Yn dilyn yr oedfa, cawsom barti yn y ganolfan lle ddaeth Sion Corn ag anrhegion. Diolch yn fawr i Sion Corn ac i Arolygwraig yr Ysgol Sul, Meinir Davies, am roi siocledi i'r plant. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd.



Plant yr Ysgol Sul yn y parti gyda Sion Corn



Mary Thomas gyda'i merch Elaine Davies yn troi golau'r goeden Nadolig ymlaen.

Newidwyd amser oedfa Noswyl y Nadolig eleni i 8 yr hwyr a daeth tyrfa niferus i'r gwasanaeth. Yn cymryd rhan oedd: Capel y Graig – Meinir Davies; Gwenllian Evans; Alyson a Ffion Harries; Jean a Gwawr Lewis; Eifion Jones; Rhian Thomas; Ffynnonbedr – Arwyn a Hevina Jones; Llinos Jones; Capel Cendy a Bwlchnewydd – Sioned Beynon; Handel Griffiths; Sylvia Thomas; Pen-y-bont – Catrin Parry Williams a Fiona Phillips. Hyfryd iawn oedd clywed pobl ifanc yr ofalaeth yn canu dwy garol gyda'i gilydd. Eirlys Phillips a Buddug James Rees oedd yn cyfeilio. Diolch i bawb am oedfa hyfryd.
Diolch yn fawr i Arwyn Bowen, Steffan Harries, John a Dafydd Phillips am roi'r goeden Nadolig yn ei lle. Diolch hefyd i Eifion a Menna Thomas Jones am addurno'r capel ar gyfer y gwasanaethau.

Canolfan Gymunedol Alma

NOSON SOSIAL YR HOMEGUARD



7.2.25
@ 7YH

Bwyd • Raffl • Adloniant

*Pob teulu i ddod a gwobr raffl.*
*Cyfle i ennill amrywiath o wobrau !*
*Croeso cynnes i bawb*

## EFAILWEN

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog i Cerys a Bleddyn Davies, Caerdydd ar enedigaeth mab, sef Ioan Gwern ar yr 2il Ionawr. Hefyd i mamgu a tadcu, sef Janet a David Harries, Roseberry a hen-famgu a hen-dadcu Rhiannon ac Iorwerth Davies, Pencerrig. Anrheg bendigedig i chi gyd ar ddechrau 2025.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn a Leighton Griffiths, Heatherview a'r teulu wedi colli mam, sef Carol Griffiths, yn ddiweddar.
....hefyd gyda Emrys a Liz Llewellyn a'r teulu, Dolawel ar farwolaeth mam, mamgu a hen famgu annwyl, sef Mrs Mary Llewellyn.

BAR BECA
Rhosfach, Efailwen
Guto Jenkins
Oriau agor Gaeaf: Hydref 1af-31 Mawrth
(Ar gau Llun, Mawrth a Mercher)
Agor Iau a Gwener: 4.30yp - 11yh
Sadwrn a Sul 3yp - 11yh
Oriau Haf: Ebrill 1af - 30ain Medi
(Ar gau nos Lun)
Agor Mawrth, Mercher, Iau 5.30yh - 11yh
Gwener, Sadwrn, Sul 3yp - 11yh
Ffôn: 07554 664316

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

....hefyd â theulu Maenhir ar golli Joseph Twose, gŵr Rosemarie Twose a fu farw ddechrau mis Ionawr.

**Salwch**

Dymunwn adferiad buan i'r canlynol :-
Meinir Jenkins, Rhosfach,
Tudur Lewis, Bro Beca,
Huw Owens, Dan y Coed
ac Isaac Davies, Brynhyfryd.

**Capel Nebo**

**Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Nebo**

Ar fore Sul 15eg Rhagfyr fe wnaeth plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo gynnal eu gwasanaeth Nadolig. Cyflwynwyd stori'r Geni trwy gyfres o ymsonau difyr, gyda Hannah fel Mair, Lewis fel Joseff, Charlie fel bugail, Celt fel dafad, Osian fel gŵr doeth a Herod, Efan fel lletywr a Begw fel yr angel Gabriel. Roedd Gruff bach gyda'r criw hefyd. Galwodd Siôn Corn heibio yn ei siwt goch a'i farf wen gan greu tipyn o hwyl a chafwyd parti te yn y festri i ddilyn. Croeso cynnes i blant a phobl ifanc yr ardal ymuno â'r Ysgol Sul yn y festri bob bore Sul am 9.30 yb.



Plant a phobl ifanc Ysgol Sul Nebo

**Plygain Capel Nebo**

Noswyl Nadolig, yn ôl yr arferiad, cynhaliwyd Plygain yn Nebo am 11.30 yr hwyr. Cafwyd darlleniadau, gweddïau, darnau o farddoniaeth, perfformiadau cerddorol gan Begw ac Efan a chanu cynulleidfaol, gyda Mrs Eilyr Thomas yn llywyddu a Mrs Jean Jones yn cyfeilio. Braf oedd gweld dau ymwelydd yn troi i mewn a oedd ar wyliau yn yr ardal ac wedi mwynhau'r gwasanaeth.

**Gwasanaeth yng Nghartref Gofal Waungron**

Bnawn Sul, 22ain Rhagfyr, cynhaliodd aelodau Capel Nebo wasanaeth Nadolig yng Nghartref Gofal Waungron, Hendygwyn-ar-Dâf. Bu'r aelodau'n cyflwyno darlleniadau, gweddïau ac yn canu carolau, gyda nifer o'r preswylwyr yn ymuno yn y canu. Hyfryd oedd gweld ein ffrindiau sydd yn Waungron yn edrych yn dda, ac yn amlwg yn derbyn y gofal gorau. Diolch yn fawr i staff Waungron am ein croesawu ac am y baned a'r mins pei hyfryd wedyn.

**GŴYL RHINWEDD A MOES 2025**

**BRECWAST**

CAFFI BECA EFAILWEN

**Dydd Sul Chwefror 23ain, 2025**
**10 o'r gloch y bore**

**Siaradwr Gwadd: DYLAN IORWERTH**

Archebwch le trwy gysylltu ag ysgrifennydd eich capel a thalu **£10**

Mae angen i'r ysgrifenyddion anfon enwau pawb sydd eisiau mynychu'r brecwast, yn ogystal â'r tâl, erbyn dydd Gwener, 14eg Chwefror 2025 at
Anna Williams –
anna.williams2047@gmail.com
neu 07850 713902

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

SPAR
Llanboidy
Swyddfa Bost
Nwyddau o bob math
Diodydd
Loteri
SWYDDFA POST
Ffôn: 01994 448221

Jones Login
Teithiau o Safon
Gwasanaeth o'r safon uchaf
Login, Hendy-gwyn ar Daf
Sir Gaerfyrddin. SA34 0UX
Ffôn: 1437 563277
info@joneslogin.co.uk
www.joneslogin.co.uk

Y CARDI BACH, BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BANCYFELIN

**Sioe Siân Corn**



Diolch yn fawr i Siân Corn am ymweld â Dosbarth y Llan/Mihangel ar Dachwedd 13eg er mwyn cyflwyno ei sioe Nadolig. Cafodd y plant fwynhad mawr wrth wylio'r sioe.

**Bingo Cymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau Ysgol Bancyfelin**

Diolch o galon i'r Gymdeithas rieni, athrawon a ffrindiau am drefnu noson Bingo er mwyn codi arian i'r ysgol. Cafwyd noson lwyddiannus a gwnaed elw da. Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson. Diolch yn fawr hefyd i Bruce Wallace am gynnal y noson ac am ddiddanu'r gynulleidfa niferus.

**Ffair Nadolig Neuadd y Pentref**

Diolch yn fawr i Bwyllgor Neuadd Pentref Bancyfelin am wahodd plant yr Ysgol i ganu yn ei Ffair Nadolig eleni ar Ragfyr 1af. Mwynhaodd y plant gael y cyfle i berfformio o flaen trigolion y pentref. Diolch hefyd i Siôn Corn am alw heibio ar gyfnod mor brysur yn ei galendr.

Sioe Noson y Gêm Fawr



Cynhaliwyd sioe Nadolig Ysgol Bancyfelin yn neuadd y Pentref ar Ragfyr y 3ydd. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn diddanu rhieni, teuluoedd, ffrindiau a thrigolion y pentref wrth berfformio'r sioe – Noson y Gêm Fawr.

Diolch o galon i Bwyllgor y Neuadd am fod mor gefnogol yn ystod ein ymarferion. Braf oedd cael y Meithrin yn ymuno gyda ni yn y sioe hefyd.

**Dathlu'r Nadolig**

Cafwyd parti Nadolig hyfryd gydag ymweliad wrth Siôn Corn ac roedd y plant wrth eu boddau gyda'r rhoddion caredig. Cynhaliwyd cinio Nadolig yr ysgol hefyd a chafwyd clamp o ginio blasus. Diolch i Lauren a staff y gegin am goginio.

**Prosiect Antur Amser**

Bu plant Dosbarth Cywyn yn ffodus iawn i gael bod yn rhan o gynllun Peilot Antur Amser a chawsant ymweliad cyn y Nadolig er mwyn cyflwyno'r prosiect. Mwynhaodd pawb ddefnyddio eu sgiliau darllen i ddatrys y codau er mwyn cael mynediad i chwarae'r gêm ddigidol.

**Cyngor Tref Sanclêr**



Hoffai ddisgyblion Ysgol Bancyfelin ddiolch yn fawr i Gyngor Tref Sanclêr am yr anrhegion Nadolig caredig.

# YSGOL LLYS HYWEL

**Tripiau Nadolig**

Roedd y plant Dysgu Sylfaen wedi mwynhau yn Neuadd y Gwendraeth wrth wylio Sioe Nadolig Cyw a fe wnaeth disgyblion Blwyddyn 3-6 fwynhau gwylio Panto 'Beauty and the Beast' yng Nghaerfyrddin.

**Poburdd/ Cogurdd**

Cymerodd rhai disgyblion Blwyddyn 4-6 ran yng nghystadleuaeth Cogurdd a Poburdd yn ddiweddar. Da iawn i Amelia Lennon a Polly McNamara am gynrychioli'r ysgol yn y rownd ranbarthol.

**PTA Bingo**

Diolch yn fawr iawn i Ffrindiau Ysgol Llys Hywel am drefnu noswaith bingo Nadolig llwyddiannus iawn a

diolch i bawb am eich cyfraniad i'r hamperi hyfryd.

**Diwrnod heb ysgrifennu**
Cawsom ddiwrnod ymarferol iawn heb ddefnyddio peniau. Roedd e'n gyfle gwych i wneud llawer o weithgareddau llafar a gwaith tîm. Roedd sawl dosbarth wedi cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau megis amser cylch, arwyddion iaith a diogon o waith llafar.

**Prynhawn Mentergarwch**



Wythnos prysur oedd trefnu ein prynhawn mentergarwch. Roedd y plant wedi creu sawl eitem yn eu dosbarthiadau i werthu. Aeth rhai o'r disgyblion o gwmpas y gymuned i siarad gyda busnesau lleol am sut i redeg busnes, ymchwil o'r gymuned a gwerthu i rieni. Prynhawn llawn llwyddiant!

**Gymanfa**



Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion wnaeth gynrychioli'r Ysgol drwy cymryd rhan yn y Gymanfa ar nos Sul, 8fed o Ragfyr. Roedd yn bleser bod yn rhan o'r gwasanaeth a fe wnaeth y plant ganu'n hyfryd!

**Gwasanaeth 'Guto Gweinidog'**
Diolch unwaith eto i Guto Llywelyn o'r Tabernacl, am wneud gwasanaeth i'r Ysgol gyfan ar stori'r geni. Mae'r disgyblion wastod yn edrych mlaen i glywed straeon o'r Beibl.

**Ymddeoliad hapus!**
Ymddeoliad hapus iawn i Carol Evans, sydd wedi gweithio yn yr Ysgol am 24 o flynyddoedd! Dechreuodd hi ar lawr y dosbarth yn cynorthwyo cyn symud i dderbynfa'r Ysgol, ble mae wedi gorffen ei gyrfa.



Dymunwn bob hwyl iddi wrth ymddeol ar ôl cyfnod hir. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd!

**Blwyddyn Newydd, plant Newydd**



Croeso mawr i'r disgyblion newydd sydd wedi ymuno ậ ni'n llawn amser ym mis Ionawr.

# YSGOL BRO BRYNACH

Mae disgyblion dosbarth Gronw wedi cael y cyfle i dderbyn sesiynau drymiau gan athro peripatetig y Sir. Cafodd y plant y cyfle i gael gwersi a dysgwyd sut i ddechrau chwarae am guriad a rhythm.

Ar y 27ain o Dachwedd cystadlodd Barnaby yn rownd Ranbarthol Poburdd yn Ysgol Bro Myrddin. Y dasg oedd coginio 4 cacen fach wedi eu haddurno adref a'i gyflwyno i'r beirniad. Da iawn ti!

Fe wnaeth disgyblion o flynyddoedd 5 a 6 gystadlu yn nhwrnamaint Pel-rhwyd Cymysg yr Urdd yn Pod Caerfyrddin. Ymdrechodd pawb a gwneud eu gorau glas.

Braf oedd cael ein gwahodd i Eglwys Sant Brynach i dderbyn gwasanaeth am bwysigrwydd adeg yr Adfent ac am wir ystyr y Nadolig. Adroddodd Shirley stori'r Geni gan ddefnyddio siocledi amrywiol.

Ar y 3ydd o Ragfyr cafodd disgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 y cyfle i fod yn rhan o brosiect Taith Antur Amser. Cyn y sesiwn gwrandawodd y plant ar stori Antur Amser. Diolch i Gwyneth o Fenter Gorllewin Sir Gar am ddod allan i gynnal sesiwn llawn gweithgareddau hwylus a oedd yn ddilyniant o'r stori.

Bu disgyblion CA2 yn brysur yn addurno torch Nadolig a wnaethom greu ar ddechrau'r flwyddyn. Roeddwn yn lwcus iawn i gael arbenigedd Ffion o gwmni Blodau'r Buarth i'n helpu.

**Sioe Nadolig Cyw**



Teithiodd disgyblion dosbarth Lliwe a Sien i Neuadd y Gwendraeth i wylio sioe Nadolig Cyw. Cafwyd hwyl yn gwylio Elin, Dafydd, Ben Dant a Bledd y Ddraig. Braf oedd gweld Sion Corn hefyd.

**Ffair Nadolig y Neuadd**



Diddanwyd trigolion Llanboidy ar noson Ffair Nadolig y pentref. Canwyd 4 cân Nadoligaidd, diolch i'r pwyllgor am ein gwahodd eleni eto ac am gefnogi'r ysgol ar bob achlysur.

**Sioe Nadolig yr Ysgol**



Gwnaeth y disgyblion berfformio yn arbennig o dda yn eu perfformiad Nadolig. Thema y perfformiad eleni oedd Goglbocs Nadolig. Roedd dosbarth Cynin yn actio fel cogyddion enwog ar y teledu ac yna'r gweddill yn gwylio ac yn beirniadu. Cafwyd pennill, cân a hanes symbolau'r Nadolig gan ddosbarth Gronw. Gwnaeth blwyddyn 2 adrodd stori'r geni gyda meithrin a derbyn wedi gwisgo mewn gwisgoedd y stori. Rhestr Sion Corn oedd darn blwyddyn 1.

Ar ddechrau Rhagfyr ymwelodd Guto â'r ysgol i rannu stori'r Geni. Diolch eto i Guto am ei gefnogaeth di-flino drwy'r flwyddyn.
Ar ddydd Iau y 12fed o Ragfyr daeth Claire o Dog's Trust allan i'r ysgol i wneud gwasanaeth i'r ysgol gyfan a gweithgareddau gyda'r plant.
Ar y 17eg o Ragfyr cynhaliwyd Diwrnod Ffederasiwn Nadoligaidd yn Ysgol Beca. Mwynhaodd y disgyblion ymgymryd mewn cwis Nadolig, disgo a gweithgareddau crefft.
Ar ddydd Mercher, 18fed o Ragfyr, cafwyd cinio Nadolig blasus. Diolch i Jonathon a Cynthia am baratoi y cinio ac am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.

Cafwyd gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys cyn y gwyliau ble dysgon ni am hanes, pwrpas a beth mae gwahanol rannau o'r Cristingl yn ei gynrychioli. Derbyniodd pob disgybl Cristingl i fynd adref. Hoffwn ddiolch i Shirley am ei chefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

---

## YSGOL BECA



Roedd yn dymor prysur yn Ysgol Beca cyn y Nadolig gyda'r disgyblion yn profi nifer o weithgareddau newydd, pwysig a difyr. Fe ddaeth Holly Batcup o Wasanaeth Ambiwlans Cymru i ymweld â'r ysgol yn ystod yr hanner tymor. Rhannodd Holly wybodaeth am waith y Gwasanaeth Ambiwlans a'r holl ffyrdd y mae'n helpu pobl bob dydd. Siaradodd am sut mae'r Gymraeg yn bwysig yn y gwaith hwn, gan ei helpu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phobl a rhoi'r gwasanaeth gorau posib i'r cyhoedd. Hefyd, dangosodd sut mae'r Gymraeg yn agor cyfleoedd i wella gofal cleifion a chryfhau'r cysylltiad gyda'r gymuned. Ar ddiwedd y sesiwn, rhoddodd Holly gopïau o lyfr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i bawb.

Yn ogystal, bu'r disgyblion ar nifer o ymweliadau hwnt ac yma, gan gynnwys perfformio sioe Nadoligaidd. Roedd ein Sioe Nadolig yn ddathliad gwych o dymor y Nadolig, sy'n adlewyrchu gwaith caled a dawn arbennig ein disgyblion. Roedd eu perfformiadau'n rhagorol, a'u hymroddiad yn amlwg ym mhob eiliad o'r sioe. Hoffem estyn ein diolch diffuant i'r rhieni am eu cefnogaeth barhaus, ac i'n CRhA am eu hymdrechion yn trefnu'r raffl ac yn rheoli casglu tocynnau yn ystod perfformiadau'r prynhawn a'r nos.

Mae'r disgyblion bellach wedi dychwelyd i'r ysgol ac yn edrych ymlaen at ystod eang o brofiadau cyffrous a gwahanol dros y tymor. Cofiwch, os gallwch gefnogi'r ysgol mewn unrhyw ffordd—boed yn dysgu yn yr awyr agored, garddio, neu hyfforddi chwaraeon—rhowch wybod i aelod o staff neu cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at admin@beca.ysgolccc.cymru. admin@beca.ysgolccc.cymru.

# YSGOL GRIFFITH JONES

Bu'n ddiwedd tymor prysur dros ben gyda llu o ymwelwyr a gweithgareddau difyr cyn i'r tymor ddod i ben.

**Ymwelwyr**
Hyfryd oedd croesawu Mrs Margarette Hughes unwaith eto wrth iddi rannu ei hatgofion gyda dosbarthiadau Branwen a Rhiannon, o fod yn blentyn bach yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Difyr oedd clywed am ei hatgof o'i thad yn dychwelyd o'r rhyfel yng nghanol môr o filwyr eraill yng ngorsaf drenau Caerfyrddin.

Croesawyd cwmni theatr 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i roi perfformiad i blant Cam Cynnydd 2 yn seiliedig ar y Blits yn Abertawe.

Cafodd plant Cam Cynnydd 1 fore hwyliog iawn yng nghwmni Siani Sionc a Sian Corn.

Bu disgyblion dosbarthiadau Myrddin, Culhwch a Pwyll yn mwynhau gweithdy dan ofal yr artist Lisa Evans. Cawsant gyfle i greu gwaith 3D ar gyfer murlun a fydd yn rhan o brosiect cymunedol yn San Clêr.

**Côr yr ysgol**



Cafodd côr yr ysgol amser prysur y tymor diwethaf. Fe fuon nhw'n canu fel rhan o berfformiad Nadolig Cam Cynnydd Un. Fe ganon nhw hefyd mewn gwasanaeth cymunedol yn Eglwys y Santes Fair. I orffen y tymor aethon nhw i ganu yng Nghartrefi gofal Dol-y-felin a'r Garreg Lwyd.

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**
Cafwyd noson lwyddiannus unwaith eto yn ein noson 'Bingo Ben' draddodiadol. Codwyd £3,128. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb wrth eu boddau yn cymdeithasu wrth chwarae bingo. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi ac am eu rhoddion. Diolch arbennig i Mrs. Elinor Evans a'r GRAaFf am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y noson.

**Cogurdd a Phoburdd**
Llongyfarchiadau i Lily Jones am gystadlu yn rownd rhanbarthol Cogurdd yn Ysgol Bro Myrddin. Llongyfarchiadau mawr iddi am baratoi byrger gwych gyda cholslo cartref ar yr ochr! Llongyfarchiadau hefyd i Alffi Morgan-Davies a fu'n paratoi cacennau ar gyfer rownd rhanbarthol Poburdd. Llwyddodd i ddod yn drydydd.

**Chwaraeon**
Pêl rwyd – Aeth tim cymysg o blant o ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin i gystadlu yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd.

**Nadolig**






Cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus iawn a phleser oedd gweld pob disgybl yn disgleirio wrth berfformio. Aeth disgyblion Cam Cynnydd Dau â ni yn ôl i'r chwedegau gan berfformio '1960's Top of the Pops'. Roedd hwn yn gipolwg lliwgar iawn ar gyfnod arwyddocaol mewn hanes. Aethom yn ôl i gyfnod y Blits gyda disgyblion Cam Cynnydd Tri gyda pherfformiad o 'Nadolig ynghŷd'. Neges y sioe oedd pwysigrwydd trysori ein teuluoedd ar

adeg y Nadolig. Roedd y ddwy sioe yma yn atgyferthu gwaith thema a gyflawnwyd yn ystod y tymor. Cyflwynodd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn berfformiad hyfryd o 'Pen-blwydd hapus Iesu'. Dyma'r tro cyntaf i'n plant lleiaf ni gael cyfle i ymddangos a pherfformio ar lwyfan.



Cynhaliwyd partïon gydag ymweliad arbennig wrth Sion Corn ac fe fwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus iawn yn eu siwmperi Nadolig.  Derbyniodd bob plentyn anrheg  Nadolig oddi wrth Gyngor Tref San Clêr eleni eto, diolch yn fawr iawn iddynt am eu caredigrwydd.

---

# YSGOL BRYNCONIN

**Pantomeim, Theatr Lyric, Caerfyrddin**
Ar ddydd Gwener, 8fed o Dachwedd teithiodd y plant i Gaerfyrddin er mwyn gweld pantomeim 'Culhwch ac Olwen.' Derbynion ni fel Ysgol grant er mwyn mynd i weld perfformiad byw gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe wnaeth pawb fwynhau y sioe mas draw.

**Plant Mewn Angen**
Diolch i swyddogion Senedd yr Ysgol am drefnu gweithgareddau hwyl ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Braf oedd gweld y plant mewn sbotiau a phyjamas a diolch i bawb oedd wedi cyfrannu cacennau i'r diwrnod. Diolch hefyd i Siop Sarah, Maenclochog am roi y jar o losin i ni. Llwyddwyd i godi swm o £330 i'r elusen arbennig a phwysig hon.

**Seremoni Cofio**
Cynhaliodd Dosbarth Rhuddem seremoni cofio ar bwys y gofeb ar fore Llun, 11eg o Dachwedd am 11 o'r gloch. Cyflwynwyd torch o babis ar ran Ysgol Brynconin.

**Gweithdy Opera**
Braf oedd mynychu gweithdy opera ABC am ddim ar ddydd Gwener, 15fed o Dachwedd yn Ysgol Brynconin. Roedd yn weithdy llawn hwyl a sbri a chafwyd cyfle i ddysgu am operau enwog y byd.

**Cogurdd a Phoburdd**
Da iawn i Anwen a Deri am gynrychioli Ysgol Brynconin yng nghystadleuaeth Cogurdd a Phoburdd rownd sirol yn Ysgol Caer Elen, Hwlffordd dydd Iau, 21ain o Dachwedd. Roedd 19 o blant wedi cystadlu ac fe wnaeth y ddau yn arbennig o dda.

**Twrnament Pêl Rwyd yr Urdd**
Da iawn i Dîm Pêl Rwyd yr Ysgol am gystadlu yn nhwrnament pêl rwyd yr Urdd yn Hwlffordd ar ddydd Mawrth, 19eg o Dachwedd. Fe wnaeth y merched fwynhau y profiad a diolch i Miss Kim am ofalu am y plant.

**Ffair Nadolig Neuadd Clunderwen**
Diolch o waelod calon i bawb a ddaeth i Ffair Nadolig Neuadd Clunderwen ar fore Sadwrn, 2il o Ragfyr. Braf oedd gweld nifer o blant yr Ysgol yno yn canu a diolch i Swyddogion y Neuadd am y gwahoddiad i ganu.

**Sioe Nadolig**










Braf oedd cael perfformio  ein Sioe Nadolig o flaen cynulleidfa byw unwaith eto a bydd y sioe yma yn fyw yn ein meddyliau am amser hir. Fe wnaeth y plant i gyd eu gwaith yn wych ac rydym yn browd iawn o'r plant i gyd - sêr y dyfodol. Diolch i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y sioe, yn arbennig y staff sydd wedi rhoi oriau ychwanegol i baratoi 'Pandemoniwm Pantomeim.'

## Parti/Cinio Nadolig

Diolch o waelod calon i Miss April am baratoi cinio Nadolig blasus i ni ar ddydd Mawrth, 17eg o Ragfyr. Braf oedd cael cwmni plant a Staff Ysgol Feithrin Llandysilio yma hefyd.

I ddathlu'r Nadolig cafwyd disgo yn neuadd yr Ysgol ar brynhawn Iau, 19fed o Ragfyr a daeth Siôn Corn i weld y plant yn y bore. Diolch i'r PTA am drefnu'r anrhegion i'r plant.

## Gwasanaeth Diwedd Tymor




Braf oedd cael cynnal gwasanaeth diwedd y tymor yng nghwmni y plant a'r rhieni ar brynhawn Mercher, 18fed o Ragfyr. Cafwyd cyfle i ddathlu gwaith da y tymor a llongyfarchiadau enfawr i Aiden Linge Phillips am ennill Tlws CFfI Clunderwen am ddangos cynnydd arbennig yn ei waith dros y tymor.

## Diolch



Diolch i Gymdeithas Rhieni Ysgol Brynconin am godi dros £700 i'r ysgol drwy gynnal Raffl Fawr Nadoligaidd. Diolch hefyd i rieni Ysgol Brynconin am drefnu parti Calan Gaeaf er mwyn codi arian i'r Ysgol. Codwyd swm sylweddol o dros £1000 tuag at gronfa'r Ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion pob un.

YSGOL BRYNCONIN

Jones Login
Teithio o safon
Quality Coach Travel

Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn 01437 563277
www.joneslogin.co.uk




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | Gwesty Warner – Neuadd Alvaston, Swydd Caer | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 15 | Sioe Gerdd *Calamity Jane*, CMC a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | Sioe Gerdd *Chitty Chitty Bang Bang*, CMC a Bae Caerdydd | 1 |
| Gwe 25 | Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Dyddiad i'w drefnu! | Gerddi Highgrove a Chaerfaddon | 2 |
| Sad 10 | Sioe Gerdd *Chicago*, CMC a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | Caernarfon ac Ynys Môn | 5* |
| Sad 17 | Sioe Gerdd *Only Fools & Horses*, CMC | 1 |
| Sad 17 | Yr Alban - Perth a'r Canolbarth | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | Ardal y Peak District | 5* |
| Mer 18 | Diwrnod y Merched, Royal Ascot | 3 |
| Llun 30 | Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog | 5* |
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | Sidmouth | 5* |
| Sad 28 | Sioe Gerdd *Joseph a'i got amryliw*, CMC | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | Eisteddfod a Chaer | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | Swydd Caint, Gardd Lloegr | 5* |
| Llun 15 | Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin | 5* |
| Gwe 20 | Penwythnos Sioe Cerddorol Concorde (Concorde) | 2 |
| Llun 23 | Iwerddon—Swydd Mayo | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Sad 4 | Elvis Evolution a Windsor | 2 |
| Llun 6 | Gwesty Warner, Cricket St. Thomas | 5* |
| Llun 13 | Ardal y Llynnoedd | 5* |
| Sad 25 | Sioe *Waitress*, CMC | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | Twrci a Tinsel - Torquay | 5* |
| Sad 15 | Sioe *Riverdance 30*, Caerdydd | 1 |
| Sad 29 | Goleuadau Palas Blenheim a Windsor | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns o ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.

*Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!

CYFRES Wenfro

# Llyn Llythrennau

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

**Wyt Ionawr yn oer,**
**A'th farrug yn wyn;**
**A pha beth a wnaethost**
**I ddŵr y llyn?**

*Eifion Wyn*



Mae llyn llythrennau Bwgi-bo yn llawn geiriau sy'n ymwneud â'r llyn. Fedrwch chi ddarganfod pa un o'r geiriau canlynol sydd ar goll?

**broga griff gwas y neidr hwyaden lili llyffant malwen penbwl pysgodyn**

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| e | a | h | y | ff | h | o | i | ll | u | t | s | a | d |
| m | a | l | w | e | n | i | y | r | l | a | h | n | o |
| a | h | m | a | y | h | ff | p | a | i | ll | o | y | b |
| m | y | ll | n | o | a | h | b | t | l | a | ff | d | a |
| ff | g | p | d | n | ll | d | o | h | i | y | h | o | r |
| o | r | h | t | a | ff | h | e | p | b | r | o | g | a |
| a | i | e | ll | w | h | y | d | n | e | ff | h | s | i |
| h | ff | h | b | g | c | ff | e | n | y | ll | o | y | e |
| a | t | ff | y | h | ll | h | l | w | b | n | e | p | n |

**Blwyddyn Newydd Dda!**

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/02/25**

Beca Leeke o'r Bontfaen yw enillydd Cystadleuaeth Arswyd y Byd!

Ateb: Pwmpen, ysbryd, corryn, ystlum, gwe, gwrach a sgerbwd oedd y geiriau arswydus.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 24ain Ionawr | DIRGELWCH Y LLOFRUDDIAETH YN Y CELTIC CAERNARFON | £285 | 3 Diwrnod |
| Gwe 31 ain Ionawr | PENWYTHNOS ARBENNIG YN WESTON SUPER MARE | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwe 7fed Chwefror | BABBACOMBE, ABATY BUCKFAST a NEWTON ABBOT | £280 | 4 Diwrnod |
| Llun 17eg Chwefror | "BYWYD AR Y MOROEDD MAWR" YN LLANDUDNO | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 23ain Chwefror | GWYLIAU HAMDDENOL CLYD AR ARFORDIR YNYS WYTH | £455 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Chwefror | CLIVE a'i FFRINDIE yn GWESTY'r CELTIC CAERNARFON | £260 | 3 Diwrnod |
| Iau 6ed Mawrth | GEM RYGBI ALBAN v CYMRU YN CAEREDIN | £449 | 4 Diwrnod |
| Sul 9fed Mawrth | PENTREF DOC MARTIN, ARFORDIR CERNYW a ST AGNES | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Mawrth | *NEWYDD * GWYLIAU STAFELLOEDD SENGL yng NGAINT | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 14eg Mawrth | PENWYTHNOS YN DINAS HYNAFOL EFROG | £340 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21ain Mawrth | PAIGNTON a GERDDI BOTANEG BICTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwe 28ain Mawrth | LOOE, ARFORDIR CERNYW a'r "EDEN PROJECT" | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 31ain Mawrth | RHYFEDDODAU WEYMOUTH a "JURASSIC COAST" | £445 | 5 Diwrnod |
| Llun 7fed Ebrill | LLANBERIS a RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £555 | 5 Diwrnod |
| Sad 12fed Ebrill | BLAS o GYMRU o WESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Ebrill | TULIPS a MELINAU GWYNT YR ISELDIROEDD | £695 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS A (Seddi Gwaelod) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS B (Seddi Uwch) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORQUAY, TOTNES a taith llong ar yr Afon DART | £365 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Ebrill | Yr HYFRYD SANDOWN ar YNYS WYTH | £465 | 5 Diwrnod |
| Llun 5ed Mai | "Wedgwood Wonders, Trentham Treats & Cheshire Charms" | £580 | 5 Diwrnod |
| Maw 6ed Mai | GUERNSEY | £1,100 | 6 Diwrnod |
| Llun 12fed Mai | Manchester - Concorde, Lowry a Gardd Godidog RHS | £505 | 5 Diwrnod |
| Sul 18fed Mai | "CALL THE MIDWIFE" a DINAS HYNAFOL CAINT | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 19eg Mai | TAITH DDIRGEL MIS MAI | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 23ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £440 | 3 Diwrnod |
| Sul 25ain Mai | TAITH ANTUR FAWREDDOG yr ALBAN | £1,750 | 12 Diwrnod |
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Rhys Biggs yn 12 oed ar Ionawr 15fed. Wedi mwynhau lawr yn Blaenffynon dros Galan Newydd yn dal Jess y gath. Llawer o gariad wrth mam, dad, Glyn, mamgu a dadcu a'r teulu i gyd. xxx



Penblwydd hapus i Mali Fflur yn flwydd oed. Mae Mali yn ferch i Megan a Matthew, yn wyres i Emyr ac Emma a Helen a Wayne ac yn or-wyres i Denzil a Gwyneth. Llawer o gariad X.



Penblwydd Hapus i Ema Farnden a oedd yn 6 oed ar 8fed o Ionawr. Mae Ema yn ferch i Nia a Robert Farnden. Wyres i Delyth a Michael Roblin, Glynty,






Penblwydd hapus i Arielle Thomas o Landdowror a oedd yn 8 oed ar 23ain Ionawr. Cyfarchion wrth Arwyn, Ayla ac Arthur.



Penblwydd hapus Luned yn 9 oed ar yr ail o Chwefror. Cariad mawr Dadi, Mami, Aneurin, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

# CORLAN

**Cartref yr Henoed Glyn Nest,
Castell Newydd Emlyn**



Bu Corlan yn diddanu deiliaid cartref Glyn Nest cyn y Nadolig. Cafwyd croeso cynnes yno a pherfformiodd y côr nifer o garolau a chaneuon Nadolïgaidd. Canodd Donna George ‘O ddwyfol nos’ a diolchodd Betty Thomas i’r côr am ein hymweliad. Cafodd yr aelodau sgwrs ddifyr gyda sawl un o’r deiliaid.

**Cartref yr Henoed Waungron,**



Rhai wythnosau yn ddiweddarach, bu Corlan yn canu yng Nghartref Waungron. Yn dilyn ein perfformiad, dywedodd Ron Jenkins cymaint yr oeddent wedi gwerthfawrogi ein hymweliad â’r cartref. Yna mwynheuodd y côr sgwrs dros baned o de a mins pei.

# Cerflun Twm Carnabwth



Russell Davies, Cadeirydd Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn cyflwyno siec o £1,000 i Robert James ac Eurfyl Lewis, swyddogion Pwyllgor Codi Cerflun Twm Carnabwth. Rydym yn ddiolchgar iawn i’r Cyngor Cymuned am ei cefnogaeth hael tuag at yr ymgyrch, gwerthfawrogir hynny’n fawr iawn.

**Prints “Whalu’r iet yn shils”**



Mae nifer cyfyngedig o brints “Whalu’r iet yn shils” gan yr arlunydd Meirion Jones, Aberteifi ar werth am £250. Cysylltwch gyda Eurfyl Lewis ar 07980 883924 i archebu.

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr
01994 230444
01994 230456
eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan ein staff profiadol*

Celia Vlismas
Optegydd
Castell Newydd Emlyn
01239 711888
Arberth
01834 861373

www,vlismas-opticians.co.uk
Rydym yn croesawu cleifion newydd - boed preifat neu o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Edrychwn ymlaen i’ch gweld

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan
ECA
CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Atgyfodi Sioe 'Y Cardi Bach'



Ar wahoddiad Cymdeithas y Cardi Bach, mae Cwmni Theatr Bro Preseli yn atgyfodi sioe 'Y Cardi Bach' fel rhan o ddathliadau'r Gymdeithas i ddathlu 200 mlynedd dyfodiad y rheilffordd i Grymych.

Perfformiwyd y sioe yn wreiddiol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Preseli 1995. Mae'r Cwmni Theatr yn gobeithio y bydd aelodau'r cast gwreiddiol yn ail ymuno a chriw'r perfformiad yn ogystal ag aelodau cyfredol y Cwmni ynghyd ag aelodau newydd.

Mae'r sioe a luniwyd gan Euros Lewis a Gareth Ioan yn olrhain hanes arwrol yr arweinydd bro John Owen wrth iddo fwrw ati i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er budd ei fro. Perfformir y sioe ar nos Sadwrn, Ebrill 5ed, 2025 yn Theatr y Gromlech.

Bydd yr ymarfer cyntaf ar nos Lun, Ionawr 13, 2025 am 7.30yh yng Nghlwb Rygbi Crymych.
Mae croeso cynnes i bawb – ar y llwyfan a thu cefn.
Dewch yn llu!

# Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026

Yn ôl John Davies, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod y Garreg Las 2026, bu dod o hyd i enw addas ar gyfer Eisteddfod sy'n anwesu rhan o dair sir yn dipyn o her.

Ychwanegoidd bod hi'n bwysig i gael enw sydd yn anwesu ardal yn ddaearyddol, ond hefyd yn cynrychioli hanes, chwedloniaeth a gwerthoedd. Petaech yn sefyll ar Sgwar Synod Inn, mewn cae yn Nhrelech, neu ar lan yr afon Cleddau yn Ne Sir Benfro, fe welwch fynyddoedd y Preseli, sydd yn adlewyrchu rhinweddau'r Garreg Las o Gôr y Cewri i Foel Cwm Cerwyn. Mae John yn hyderus bydd Eisteddfod y Garreg Las 2026 yn medru cynnal yr annibyniaeth barn hynny mae Waldo yn son gymaint amdano yn ei gerdd "Preseli". Bydd Eisteddfod 2026 hefyd yn nodi 850 mlynedd ers yr Eisteddfod gyntaf yng Nghastell Aberteifi yn 1176.

Mae'r gwaith o ddewis testunau yn mynd yn ei flaen yn hwylus ac mae llythyr apêl am gefnogaeth ariannol eisoes wedi mynd i holl Gynghorau Tref a Cymuned dalgylch yr Eisteddfod.

Y cam nesaf bydd sefydlu pwyllgrau apêl ar draws dalgylch yr Eisteddfod er mwyn codi swm o £400,000 cyn gynted â phosib.

Cynhelir Gŵyl Cyhoeddi'r Eisteddfod yn Arberth ar ddydd Sadwrn, Mai 17eg.

*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 39*

**Merched dan 12, dan 16 a dan 18**

Dim gemau i'r timau hyn chwaith oherwydd y tywydd gwael.

**Merched dan 14.**

Un gêm wnaeth y Teigrod chwarae dros yr wythnosau diwethaf a hynny yn erbyn Siarcod Dinbych y Pysgod.
Cawsant gêm gyfartal 17 - 17, cais yr un i Seren, Sophie a Ffion ac un trosiad.
Gobeithio daw y flwyddyn newydd a gwell tywydd a gwell canlyniadau i holl dimau'r clwb. *Suzanne Davies*





Tîm dan 14 Hendygwyn yn erbyn Siarcod Dinbych y Pysgod

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 40*

Maent wedi cael rhediad da o ganlyniadau ac yn y gêm oddi cartref yn ei herbyn yn gynharach yn y tymor, wedi profi yn dîm anodd i'w trechu. Nid oedd y gêm hon yn ddim gwahanol. Yn y pen draw, gwnaethom sicrhau buddugoliaeth o 20-19 i sicrhau pwyntiau gwerthfawr a'n galluogi i aros yn 3ydd yn y gynghrair y tu ôl i'r ceffylau blaen sef Aberystwyth a Dinbych y Pysgod. Ffordd dda i orffen 2024 ar ôl blwyddyn lwyddiannus. Cais cosb, cais yr un i Dafydd Waters a Dafydd Rees a cic gosb gan Dan Griffiths.

Teithiom ni i'r Hendy ar y 4ydd o Ionawr, am ein gêm gyntaf o 2025. Daeth hi'n amlwg yn fuan iawn bod Yr Hendy lan am y gêm, tra bod y Seintiau dal i ddod dros y twrci a holl ddathliadau y Nadolig. Er ein bod wedi bod yn gystadleuol yn ein holl gemau'r tymor hwn, ar ôl methu cic cosb a chyfle i sgorio cais o fewn y 5 munud cyntaf, cawsom drafferth i wneud unrhyw argraff ar y gêm. Roedd pob agwedd o'n gêm yn llawer is na'r safon arferol, gyda'r Hendy yn canolbwyntio, yn llawn egni ac yn glinigol ymhlith y blaenwyr a'r cefnwyr, oedd yn dominyddu ac yn symud y bêl drwy'r cefnwyr cyflym ar bob cyfle. Roeddwn yn colli 20 – 0 ar yr egwyl ac er i'r hyfforddwyr geisio newid momentwm y gêm, nid oedd gan fois penderfynol Yr Hendy unrhyw fwriad o dynnu ei troed bant oddiar y sbardun – a gwnaethant fynd ymlaen i ennill 39 – 0. Oedd, roedd chwaraewyr allweddol ar goll gennym a gwelwyd eu heisiau yn fawr – roedd hi'n amlwg fod tîm yr Hendy wedi cryfhau hefyd.

Fodd bynnag, gwnaethom fethu gwneud unrhyw argraff ar y gêm a bydd rhaid mynd nôl i'r bwrdd darlunio a chwarae llawer gwell wythnos nesaf wrth i ni groesawu Pontarddulais i Barc Griffith Jones.

Gwnaeth ein tîm datblygu chwarae yn erbyn Felinfoel ar Rhagfyr 14eg ac er iddynt golli'n drwm, roedd hi'n hyfryd gweld carfan o 19 yn chwarae gêm.

Mae ein tîm ieuenctid yn drydydd yn y gynghrair ar ol hanner cynta'r tymor, yn dilyn colli dwy gem yn erbyn dau dim cryf. Colli 17 - 12 i ffwrdd yn erbyn Cwins Caerfyrddin ar Dachwedd 16eg a colli 24-12 i ffwrdd yn erbyn Llanbed ar Dachwedd 30ain. Bydd gemau yn cael ei chwarae adref ac i ffwrdd yn erbyn Athletic Caerfyrddin, Felinfoel a Llangennech yng Nghyngrair B Sir Gaerfyrddin.

Mae'r clwb yn estyn ei cydymdeimlad pennaf i deulu'r diweddar Vivian Rees, yn dilyn ei farwolaeth ar Rhagfyr 18fed. Bu Viv yn gysylltiedig â'r clwb am flynyddoedd a bu'n gadeirydd rhwng 2013 – 15. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr, coffa da amdano.

*Gwyndaf Williams* *Lluniau: Chris Rees*







# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Tachwedd 16eg: Hendy Gwyn 19 Abergwaun 13. Roedd hon yn gêm agos iawn ac onibai am amddiffyn cadarn a penderfynol bois Hendy Gwyn ym munudau ola'r gêm, gallai Abergwaun fod wedi ennill.

30ain: Casllwchwr 30 Hendy Gwyn 8. Gêm galed a chyffrous iawn, trueni na fyddai Hendy Gwyn wedi chwarae cystal yn yr hanner cyntaf. Ma tuedd ganddynt i ddechrau gan bwyll a mynd amdani yn yr ail hanner - ond weithiau mae'r fuddugoliaeth mas o'u cyrraedd erbyn hynny.

Rhagfyr 12fed: Talacharn 41 Hendy Gwyn 12. Roedd hon yn gêm galed iawn i fois Hendy Gwyn ac yn golled drwm, dim ond un tîm oedd yn yr ornest hon a Talcharn oedd rheiny.

26ain: Gêm Gwpan Cymru. Hendy Gwyn 10 - Athletig Arberth 26. Gêm gyffrous arall ond Arberth yn llwyr haeddu'r fuddugoliaeth. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd i gefnogi'r ddau dîm ar Ŵyl San Steffan ac roedd hi'n hyfryd gweld sawl "hen" chwaraewr nôl yn chwarae i Hendy Gwyn. Bu'n ddiwrnod da i'r clwb, yn gymdeithasol ac yn ariannol a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ionawr 4ydd: Bu rhaid gohirio ein gêm i ffwrdd yn erbyn Betws oherwydd i fwyafrif tîm Hendy Gwyn ddioddef o haint D&V. Bu Betws yn ddigon caredig i ail drefnu'r gêm rhywbryd ym mis Mawrth.

**Menywod**

Dim gemau i'r menywod oherwydd y tywydd. Bydd ei gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Pontyclun yng Nghwpan Cymru ar Ionawr 19eg.

*parhad ar dudalen 38*



# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**

Blwyddyn Newydd Dda!! Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei flaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae ambell gêm yn ystod mis Rhagfyr a dechrau Ionawr yn ogystal â'n hadran iau.

**Tîm 1af**

Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25 wedi chwarae tair gêm, ennill un, a cholli dau.

Rhagfyr 14eg - Maesglas 6-7 Llanboidy (Frazer Wyatt, Dion Morgan, Calum Syddall, Geth Scourfield a Cian Strudley x 3)

26ain - Crymych 2-1 Llanboidy (Frazer Wyatt)

Ionawr 4ydd - Llechryd 4-3 Llanboidy (Frazer Wyatt, Jac Healey, Geth Scourfield)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Un gêm mae'r ail dîm hefyd wedi chwarae dros y mis diwethaf, gan ennill yn erbyn Llanon.

Rhagfyr 14eg – Llanboidy 1-0 Llanon (Iwan Thomas)

Bydd ein hymarferion bob nos Lun ar Astro Ganolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r tymor hefyd yn parhau i'n hadran iau. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r ymarferion ers yr haf. Mae nifer o gemau wedi'i chwarae ar foreau dydd Sadwrn, braf gweld canlyniadau positif ond hefyd datblygiad mawr hefyd.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r Clwb. Rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*



Tîm dan 8



Tîm dan 14

## Clwb Rygbi San Clêr

Wrth i ni agoshau at y cyfres nesaf o gemau, roedd canlyniadau gemau diweddar wedi'n gweld yn dringo i'r ail safle yn y gynghrair. Fodd bynnag, roeddem yn ymwybodol bod nifer o heriau anodd o'n blaen a gwnaeth y cyfres nesaf o gemau ddarparu canlyniadau cymysg ac anafiadau allweddol.

Fe wnaethom groesawu Cydweli i Barc Griffith Jones ar Dachwedd 16eg. Cafodd y gêm ei chwarae o flaen torf fawr ac roedd hon yn frwydr o amddiffynfeydd ac yn gwrthgyferbyniad llwyr i'r rygbi agored wnaethom ei chwarae dros yr wythnosau diwethaf. Roedd Cydweli wedi gwneud ei gwaith cartref arnom a gwnaethant gyfyngu ein cyfleoedd gydag amddiffyn cadarn gan greu cyfleoedd gwych i'w hunan hefyd - gwnaeth ei hanneri disglair reoli'r gêm yn gelfydd i sicrhau buddugoliaeth i Cydweli 10 - 17. Cafodd cyfleoedd y Seintiau ei cyfyngu i gais gosb a chic gosb gan Che Thomas.

Roedd ein gêm nesaf i ffwrdd yn erbyn Aberystwyth ar Dachwedd 30ain, lle roeddem wedi colli yn ei herbyn yn y Cwpan rai wythnosau nôl. Roedd hon yn argoeli i fod yn gêm agos ac roedd y Seintiau ar y blaen ar hanner amser. Dechreuodd Aberystwyth i ennill y bêl yn rheolaidd a gwnaethant ymosod ar bob cyfle gan fynd ar y blaen 23 – 16. Gwnaeth y Seintiau frwydro'n galed i ddod nôl mewn I'r gêm gyda chwarter awr i fynd, ond ni wnaethom fanteisio ar y cyfleodd, gan fethu dwy gic cosb a methu sicrhau meddiant yn 22 y gwrthwynebwyr. Roedd ein hymdrechion a'n gwaith caled yn ofer wrth i Aber reoli'n llwyr yn ystod y 10 munud olaf gan sgorio rhai ceisiau cyflym gyda'u hanneri pwerus yn drech na'n hamddiffyn, i ennill 43 – 16 yn y diwedd. Cais yr un i Dafydd Waters ac Aled Owens a cic gosb yr un i Dan Griffiths a Che Thomas.

Gyda'n gêm wedi'i threfnu i ffwrdd yn Ninbych y Pysgod wedi symud yn ddiweddarach yn y tymor, oherwydd eu rhediad llwyddiannus yn y cwpan, ein gêm nesaf oedd adref yn erbyn Waunarlwydd ar Rhagfyr 14eg.

*parhad ar dudalen 39*